



**Cyllid &
Thollau EM**

Nodiadau i'ch helpu i gwblhau ffurflen IHT 205 (2006)

Mae'r nodiadau hyn yn gymwys dim ond pan fu farw'r ymadawedig ar neu ar ôl 1^{af} Medi 2006. Rydym yn eich argymhell i gymryd amser i ddarllen y nodiadau hyn oherwydd byddant o gymorth i chi wrth gwblhau'r IHT205(2006) yn gywir. Gallwch wneud eich hun yn agored i gosbau ariannol os bydd yr wybodaeth a roddwch yn y ffurflen yn anghywir, yn anghyflawn neu'n anwir.

Cynlluniwyd y canllaw hwn i'ch helpu i gwblhau ffurflen IHT205(2006). Ni all esbonio popeth ynglŷn â threth etifeddiant.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â threth etifeddiant a phrofiant, nad yw'r canllaw hwn yn eu hateb, neu os bydd angen unrhyw help arnoch i gwblhau ffurflen IHT205(2006), dylech ymweld â'n gwefan yn www.hmrc.gov.uk neu ffonio ein llinell gymorth ar

0845 30 20 900
neu +44 115 974 3009 (wrth ffonio o dramor)

Mae ein taflenni a'n ffurflenni, gan gynnwys IHT205(2006), ar gael drwy ffonio'r llinell gymorth.

Sylwer, efallai y gofynnir i chi lenwi ffurflenni ar gyfer y Gwasanaeth Profiant yn ogystal â ffurflenni treth etifeddiant, er mwyn gwneud cais am Grant Cynrychiolaeth. I gael mwy o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.hmrc.gov.uk neu ffoniwch ein llinell gymorth.

Os bydd angen i chi ysgrifennu atom, mae ein cyfeiriadau (gan gynnwys cyfeiriadau DX ar gyfer cyfreithwyr a banciau ac ati) fel a ganlyn

Nottingham
HM Revenue & Customs, Inheritance Tax
Ferrers House
PO Box 38
Castle Meadow Road
NOTTINGHAM
NG2 1BB

DX701201 NOTTINGHAM 4

Belfast
HM Revenue & Customs, Inheritance Tax
Level 5
Millennium House
17-25 Great Victoria Street
BELFAST
BT2 7BN

DX2001 NR BELFAST 2

Pan fyddwch wedi gorffen cwblhau'r ffurflen IHT205(2006) ac unrhyw ffurflenni eraill y gofynnir amdany'n nhw gan y gwasanaeth profiant, dylech anfon yr holl ffurflenni ar gyfer

- ceisiadau yng Nghymru a Lloegr i'r Gofrestrfa Brofiant o'ch dewis (gweler llyfrynnau PA2 a PA4)
- ceisiadau yng Ngogledd Iwerddon naill ai i'r 'Probate Office' yn Belfast neu Gofrestrfa Brofiant y Dosbarth yn Londonderry (gweler y daflen "Delio ag ystâd person ymadawedig").

Cynnwys

	Tudalen
Rhagymadrodd	4
Cwestiynau a ofynnir yn aml	4
Asedion sy'n cael eu trosglwyddo i briod, partner sifil neu elusen cymwys	5
Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd	6
Beth ddylech ei wneud yn gyntaf	7
Prisio asedion	8
Amcangyfrif gwerthoedd ac ystadau bychain	9
Cwblhau ffurflen IHT205(2006)	9
Beth i'w wneud pan fyddwch wedi gorffen y ffurflen	30
Beth i'w wneud os bydd gwerth yr ystâd yn newid	31
Cosbau	32
Cyfrinachedd	34
Deddf Diogelu Data	34
I ble ddylwn anfon y ffurflen?	34

Rhai diffiniadau

Cyfeirir at y person sydd wedi marw fel yr “ymadawedig” yn y canllaw hwn

Cyfeirir at ŵr neu wraig yr ymadawedig fel eu “priod”. Priod yw rhywun sydd wedi priodi'n gyfreithlon i rywun arall.

Mae “partner sifil” yn rhywun sydd wedi cofrestru'n gyfreithlon partneriaeth sifil gyda pherson arall.

Rhagymadrodd

Fel arfer bydd angen grant cynrychiolaeth er mwyn cael gafael ar y rhan fwyaf o'r asedion yn ystâd yr ymadawedig. Y grantiau mwyaf cyffredin yw

- grant profiant, pan fydd yr ymadawedig wedi gadael Ewyllys, a
- grant llythyron gweinyddu, pan na fydd yr ymadawedig wedi gadael Ewyllys.

Cyn y gallwch gael grant bydd angen i chi dalu unrhyw Dreth Etifeddiant sy'n ddyledus, neu ddangos nad oes treth etifeddiant yn daladwy. Yn y rhan fwyaf o ystadau does dim treth i'w thalu a dim ond er mwyn rhoi ychydig o fanylion am yr ystâd y bydd angen i chi gwblhau ffurflen IHT205(2006). Os bydd treth i'w thalu neu os na fydd materion yr ymadawedig yn cwrdd â rhai amodau, bydd rhaid i chi gyflwyno cyfrif ffurfiol ar gyfer yr ystâd trwy gwblhau ffurflen IHT400 a'i hanfon atom. Dylech ddechrau gyda ffurflen IHT205(2006). Bydd yn eich tywys trwy'r amodau amrywiol sy'n gymwys a'ch helpu i benderfynu p'un a oes angen i chi gwblhau IHT400.

Ble rydw i'n dechrau?

I lawer o bobl, dyma'r tro cyntaf neu'r ail dro yn unig y byddant wedi gorfod delio â phrofiant a threth etifeddiant. Yn y rhan fwyaf o ystadau mae materion yn syml iawn, a bydd ffurflen IHT205(2006) ynghyd â'r nodiadau hyn, yn eich helpu i sicrhau bod pethau'n gywir. Ond cyn i ni ddechrau, dyma rhai atebion i'r cwestiynau a ofynnir amlaf i'n Llinell Gymorth.

Cwestiynau a ofynnir yn aml

A ydw i'n defnyddio'r ffurflen gywir?

Gallwch ddefnyddio ffurflen IHT205(2006) ar yr amod yr oedd cartref parhaol yr ymadawedig yn y DU a does dim treth i'w thalu oherwydd naill ai

- nad yw gwerth gros eu hystâd yn fwy na'r terfyn eithrio ystâd, **neu**
- nad yw gwerth gros eu hystâd yn fwy na £1,000,000 **ac** mae'r cyfan neu ran o'r ystâd i'w throsglwyddo i
 - priod neu bartner sifil yr ymadawedig, neu
 - elusen gymwys neu gorff cenedlaethol arall yn y DU.

Efallai y canfyddwch wrth i chi gwblhau'r ffurflen bod rhai amodau eraill yn golygu eich bod yn gorfod stopio a chwblhau cyfrif ffurfiol yn lle hynny. Ond os bodlonir yr amodau cychwynnol hyn gallwch ddechrau gyda ffurflen IHT205(2006).

Beth a olygir gan 'werth gros'?

Y gwerth gros yw cyfanswm yr holl asedion a gynhwysir yn ystâd yr ymadawedig cyn didynnu unrhyw ddyledion, yn ogystal â rhoddion a wnaed gan yr ymadawedig.

Beth a olygir gan 'ystâd'?

At ddibenion treth etifeddiant mae ystâd person yn cynnwys

- asedion yn enw'r ymadawedig yn unig
- ei gyfran ef / chyfran hi o unrhyw asedion ar y cyd
- asedion enwebedig
- asedion a roddwyd am ddim ganddo / ganddi, ond lle cadwyd buddiant ynddynt
- asedion y mae ef/hi yn elwa ohonynt, pan fydd ef/hi wedi dewis peidio â thalu'r dreth incwm a godwyd
- asedion mewn rhai mathau o ymddiriedolaethau yr oedd gan yr

yamadawedig hawl i elwa ohonynt

- gwerth cronfa bensiwn a sicrhawyd trwy ddull amgen, yr oedd yr ymadawedig yn elwa ohoni fel aelod gwreiddiol y cynllun, neu fel dibynnydd a dderbyniodd fuddiannau o gronfa bensiwn aelod gwreiddiol y cynllun, sydd dros ben

Ychwanegir cyfanswm yr asedion hyn at werth trethadwy unrhyw roddion a wnaed o fewn saith mlynedd i'r farwolaeth er mwyn cyfrifo'r swm y codir y dreth arno.

Beth yw'r 'terfyn eithrio ystâd'?

Fel arfer mae'r terfyn eithrio ystâd yr un peth â'r swm, uwchlaw iddo, y mae treth etifeddiant yn daladwy (trothwy Treth Etifeddiant). **Ond os**

- digwyddodd y farwolaeth ar ôl 5 Ebrill a chyn 6 Awst mewn unrhyw un flwyddyn, **ac**
- rydych yn gwneud cais cyn 6 Awst, y terfyn eithrio ystâd yw'r trothwy ar gyfer treth etifeddiant am y flwyddyn flaenorol.

Er enghraifft y trothwy ar gyfer Treth Etifeddiant yw

- £312,000 am y flwyddyn dreth 2008/09 a £325,000 am y flwyddyn dreth 2009/10.

Felly, os bu'r ymadawedig farw ar 21 Ebrill 2009 ac os gwnewch gais am grant cyn 6 Awst 2009

- tra dylech ddefnyddio'r trothwy ar gyfer treth etifeddiant ar gyfer 2009/10 o £325,000 i benderfynu p'un a oes unrhyw dreth etifeddiant yn ddyledus,
- y terfyn ar gyfer 2008/09 o £312,000 sy'n pennu p'un a allwch lenwi ffurflen IHT205(2006) yn lle ffurflen IHT400.

Ond os bu'r ymadawedig farw ar 21 Ebrill 2009 ac os gwnewch gais am grant ar neu ar ôl 6 Awst 2009, gallwch ddefnyddio'r terfyn ar gyfer 2009/10 o £325,000 i benderfynu p'un a allwch ddefnyddio ffurflen IHT205(2006). Gallwch ddod o hyd i drothwy Treth Etifeddiant ar gyfer y dyddiad y bu'r ymadawedig farw trwy ymweld â'n gwefan neu ffonio ein llinell gymorth.

Beth a olygir gan 'gartref parhaol'?

Eich cartref parhaol yw'r wlad lle y bwriedwch fyw am weddill eich oes. Deddfau'r wlad honno sy'n penderfynu, er enghraifft, p'un a yw ewylllys yn ddilys, neu sut y caiff ystâd person sydd heb wneud ewylllys ei thrin pan fydd ef/hi yn marw.

Asedion sy'n cael eu trosglwyddo i briod neu bartner sifil neu elusen gymwys

Beth a olygir gan 'elusen neu gorff cymhwysol arall'?

Mae elusen gymwys yn golygu elusen a sefydlwyd yn yr Undeb Ewropeaidd (neu unrhyw wlad benodedig arall) a fyddai'n cymhwyso fel elusen o dan gyfraith Cymru a Lloegr, ac sy'n cael ei rheoleiddio fel elusen yn y wlad y'i sefydlwyd (os yn briodol) ac sy'n meddu ar reolwyr sy'n bobl weddus a phriodol i fod yn rheolwyr yr elusen. Mae cyrff cymhwysol eraill yn cynnwys sefydliadau cenedlaethol eraill yn y DU megis Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Oriol Genedlaethol. Os nad ydych yn sicr p'un a yw sefydliad yn elusen gymwys neu'n gorff cenedlaethol yn y DU dylech ffonio'r llinell gymorth ar **0845 30 20 900**.

Pam fo gwahaniaeth

Yn fras, caiff asedion sy'n cael eu trosglwyddo i briod neu bartner sifil yr

p'un a yw'r ystâd yn trosglwyddo i'r priod neu'r partner sifil neu i elusen gymwys?

ymadawedig neu i elusen gymwys eu heithrio rhag treth etifeddiant. Felly, os trosglwyddir y rhan fwyaf o asedion i briod neu bartner sifil yr ymadawedig neu i elusen gymwys, mae'n debygol na fydd unrhyw dreth i'w thalu. Os na fydd unrhyw dreth i'w thalu oherwydd yr eithriadau hyn, ac mae'r ystâd yn bodloni'r amodau eraill sy'n gymwys, sef yn bennaf, bod y gwerth gros yn £1,000,000 neu lai, ni fydd rhaid i chi lenwi IHT400. **Ond ceir rhai cyfyngiadau i'r eithriadau hyn.**

Asedion sy'n cael eu trosglwyddo i'r priod neu'r partner sifil

Pan drosglwyddir asedion i briod neu bartner sifil yr ymadawedig, rhaid bod yr ymadawedig yn **ogystal â'u** priod neu eu partner sifil

- fod wedi eu geni yn y Deyrnas Unedig, **ac**
- wedi cael eu cartref parhaol yn y Deyrnas Unedig trwy gydol eu hoes.

Os nad oedd y naill neu'r llall ddim yn cwrdd â'r amodau, ac mae'r ystâd gros (y ffigur ym mlwch C) yn debygol o fod yn fwy na'r terfyn eithrio ystâd, peidiwch â chwblhau ffurflen IHT205(2006) - bydd angen i chi gwblhau ffurflen IHT400.

Ond does dim gwahaniaeth p'un a drosglwyddir yr asedion yn uniongyrchol i'r priod neu'r partner sifil, neu p'un a'u trosglwyddir i ymddiriedolaeth y mae hawl gan y priod neu'r partner sifil elwa ohoni.

Asedion sy'n cael eu trosglwyddo i elusen gymwys

Mae asedion sy'n cael eu trosglwyddo i elusen gymwys wedi eu heithrio rhag treth etifeddiant. Rhaid trosglwyddo'r gymynrodd yn uniongyrchol ac yn ddiamod i'r sefydliad. Ni ddylid ei drosglwyddo i ymddiriedolaeth er budd y sefydliad dan sylw.

Asedion mewn perchenogaeth ar y cyd

Beth am asedion mewn perchenogaeth ar y cyd gyda phobl eraill?

Cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu, stociau a chyfranddaliadau ac eiddo rhydd-ddaliadol a phrydlesol yw'r asedion sydd fel arfer yn cael eu perchen ar y cyd. Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw asedion ar y cyd gyda pherson neu bobl eraill, bydd angen i chi gynnwys gwerth cyfran yr ymadawedig o'r ased yn yr ystâd.

Pan fydd asedion yn cael eu perchen ar y cyd gan ddau neu ragor o bobl, mae'r ffordd y caiff yr asedion hynny eu perchen yn gwneud gwahaniaeth at ddibenion treth etifeddiant a phrofiant.

Os oedd yr ymadawedig

- yn dal ased gyda rhywun arall, **ac**
- mae ei gyfran/chyfran yn cael ei drosglwyddo'n awtomatig i'r cyd berchennog arall,

Rydym yn galw'r ased yn '**ased ar y cyd**'. Dylech gyfrifo gwerth cyfran yr ymadawedig mewn ased ar y cyd drwy rannu gwerth yr ased cyfan gyda nifer y cyd berchnogion. Dylech gynnwys y ffigur hwn ym mlwch 14.3. Fodd bynnag dylech ddarllen y paragraff 'prasio cyfrifon banc ar y cyd' nes ymlaen yn y nodiadau hyn.

Os oedd yr ymadawedig

- yn dal ased gyda rhywun arall, **ac**
- mae ei gyfran/chyfran yn cael ei drosglwyddo o dan ewyllys (neu os nad oedd ewyllys, o dan reolau diewyllysedd) i'r cyd berchennog arall neu i rywun arall,

bydd y cyd berchenogion yn dal yr ased fel '**tenantiaid cydradd**'. Fel arfer

bydd cyfran yr ymadawedig yn cyfateb â'r arian a roddwyd ganddyn nhw tuag at brynu'r ased neu'r swm a roddwyd mewn cyfrif ar y cyd.

Dylech restru pob ased a ddelir fel tenantiaid cydradd ym mlwch 16, gan roi gwerth llawn yr ased, a nodi cyfran yr ymadawedig, er enghraifft hanner, trydedd rhan ac yn y blaen.

Dylech wedyn gynnwys gwerth cyfran yr ymadawedig o ased yr oedd yn berchen arno fel 'tenant cydradd' yn y blwch perthnasol yn rhan 13.

Felly, os oedd yr ased yn gyfrif banc, dylech ei gynnwys ym mlwch 13.1; os mai tŷ'r ymadawedig ydoedd, dylech ei gynnwys ym mlwch 13.8 ac yn y blaen. Os nad oedd yr ased yn y Deyrnas Unedig, dylech ei gynnwys ym mlwch 14.5.

Beth ddylech ei wneud yn gyntaf

Felly beth ddylwn wneud nawr?

Chwiliwch yn drylwyr drwy holl bapurau'r ymadawedig. Gwnewch restr fras o'i asedion/hasedion, buddsoddiadau, a buddiannau ariannol eraill a'r dyledion roedd ganddo/ganddi pan fu ef/hi farw.

Os oedd yn rhaid i'r ymadawedig gwblhau ffurflenni treth Hunanasesiad, mae'n bosib ei fod ef/bod hi wedi cadw cofnodion er mwyn cwblhau'r ffurflenni hynny, a gallai'r rhain eich helpu. Gallai cyfriflenni banc a llyfrau cyfrifon cymdeithasau adeiladu eich helpu i ganfod p'un a roddwyd unrhyw roddion. Cofiwch, er nad yw incwm o rai asedion penodol megis ISAs yn agored i dreth incwm, mae'r cyfalaf yn ogystal â'r incwm yn agored i dreth etifeddiant a rhaid eu cynnwys.

Efallai y gallai fod yn ddefnyddiol hefyd i ofyn i eraill beth y gwyddon nhw am faterion yr ymadawedig. Gallai'r bobl ganlynol fod o gymorth i chi

- unrhyw gyfreithiwr neu gyfrifydd a oedd yn delio a materion yr ymadawedig,
- teulu agos yr ymadawedig (yn arbennig er mwyn dod o hyd i roddion),
- unrhyw un a enwyd yn yr ewyllys a allai wybod am faterion yr ymadawedig,
- unrhyw bartneriaid busnes agos yr ymadawedig,
- banc, brocer stoc neu gynghorwyr ariannol arall (gallai'r banc fod yn cadw papurau neu eiddo gwerthfawr arall er mwyn eu cadw'n ddiogel).

Bydd angen gwneud ymholiadau eithaf manwl arnoch er mwyn dod o hyd i bopeth sy'n rhaid ei gynnwys yn 'ystâd' yr ymadawedig. Mae'n bwysig iawn eich bod yn darparu gwybodaeth gyflawn a manwl gywir oherwydd gallech fod yn agored i gosb ariannol os darparwch wybodaeth sy'n anghywir, yn anghyflawn neu'n anwir.

Pan fyddwch wedi cwblhau eich rhestr fras o asedion ac yn y blaen, bydd angen i chi ddod o hyd i werth pob ased dan sylw. Mae'n bwysig eich bod yn prisio'r asedion yn gywir, oherwydd gallech fod yn agored i gosb ariannol os bydd y gwerthoedd a roddwch yn anghywir.

Beth ddylwn wneud pan rydw i wedi dod o hyd i'r asedion a'u gwerthoedd?

Pan fydd gennych syniad da ynghylch yr asedion i'w cynnwys yn yr ystâd, a'u gwerthoedd, adiwch y ffigurau. Os yw gwerth gros (gweler tudalen 4) yr holl asedion pan gânt eu hychwanegu at werth trethadwy unrhyw roddion a roddwyd gan yr ymadawedig, yn llai na £1,000,000 gallwch barhau i gwblhau'r ffurflen IHT205(2006).

Ond os yw'r gwerth gros

- yn fwy na £1,000,000, neu
- yn fwy na'r terfyn eithrio ystâd ac nid oes asedion i'w trosglwyddo i briod neu bartner sifil yr ymadawedig neu i elusen gymwys

peidiwch â chwblhau ffurflen IHT205(2006) ymhellach – bydd angen i chi gwblhau ffurflen IHT400.

Prisio asedion

Sut rydw i'n prisio'r holl asedion?

At ddibenion treth etifeddiant, rhaid prisio'r holl asedion fel petai bob eitem wedi cael ei gwerthu ar y farchnad agored ar y dyddiad y bu'r ymadawedig farw. Gelwir hyn 'gwerth marchnad agored'. Mae'n cynrychioli pris realistig gwerthu ased, nid gwerth at ddibenion yswiriant neu werth disodli ased.

Dylech fod yn gallu prisio rhai o asedion yr ystâd yn gymharol hawdd, er enghraifft arian mewn cyfrifon banc, stociau a chyfranddaliadau. Mewn achosion eraill, er enghraifft, tai a thir, efallai y bydd angen cymorth prisiwr proffesiynol arnoch. Os penderfynwch gyflogi prisiwr, dylech wneud yn siŵr eich bod yn gofyn iddynt am 'werth marchnad agored' yr ased.

Pan ysgrifennwch werth yr asedion neu'r dyledion ar y ffurflen, peidiwch â chynnwys ceiniogau. Dylech dalgrynnu i lawr i'r bunt agosaf. Os gadewch fllwch yn wag byddwn yn tybio eich bod yn golygu nad oedd yr ymadawedig yn berchen ar asedion o'r fath a ddisgrifiwyd.

Ceir cymorth manylach ynglŷn â phrisio gwahanol fathau o asedion yn nes ymlaen yn y nodiadau hyn.

Prisio asedion a ddelir ar y cyd

Does dim gwahaniaeth p'un a yw'r asedion mewn perchenogaeth ar y cyd, neu fel tenantiaid cydradd, y man cychwyn ar gyfer prisio cyfran yr ymadawedig yw, eu cyfran nhw o'r gwerth llawn. Felly, os cyfrannodd tri pherson yr un faint i gyfrif banc gyda £900 ynddo, a chafodd ei ddal fel ased ar y cyd, cyfran yr ymadawedig fydd £300. Ond ceir rhai rheolau arbennig ynglŷn â phrisio mathau eraill o asedion.

Prisio cyfran mewn tir

Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar dir neu adeiladau gyda phobl eraill, dylech ddechrau trwy gyfrifo gwerth cyfran yr ymadawedig.

Os nad priod neu bartner sifil yr ymadawedig yw'r cyd berchennog arall, gallwch ostwng gwerth cyfran yr ymadawedig gan 10%. Ond os bydd y tir neu'r adeiladau yn perthyn yn gyfan gwbl i ŵr a gwraig neu bartneriaid sifil, bydd rheolau arbennig yn gymwys ac ni ddylech ostwng gwerth cyfran yr ymadawedig gan 10%.

Prisio polisïau yswiriant ar y cyd

Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar bolisi yswiriant ar y cyd gyda rhywun arall, dylech gynnwys cyfran yr ymadawedig o'r polisi fel ased ar y cyd. Os gelwir y polisi yn bolisi "bywyd ar y cyd a goroeswr", dylech gynnwys cyfran yr ymadawedig o'r polisi o hyd. Dylai'r cwmni yswiriant fod yn gallu rhoi amcangyfrif ar gyfer gwerth llawn y polisi ar ddyddiad y farwolaeth, i'ch galluogi i gyfrifo gwerth cyfran yr ymadawedig.

Prisio cyfrifon banc ar y cyd

Mae prisio cyfran yr ymadawedig o gyfrif banc yn eithaf hawdd, fel mae'r enghraifft flaenorol yn dangos. Ond weithiau delir cyfrifon ar y cyd er cyfleustra yn unig. Er enghraifft, os na fydd person oedrannus yn gallu mynd

o gwmpas, gallan nhw ychwanegu enw un o'u plant at eu cyfrif banc er mwyn galluogi'r plentyn i weithredu'r cyfrif ar eu rhan.

Os bydd cyfrif ar y cyd yn bodoli er mwyn cyfleustra, a'r ymadawedig a ddarparodd yr holl arian yn y cyfrif, dylech drin y cyfrif fel petai yn enw'r ymadawedig yn unig. Dylech gynnwys cyfanswm y cyfrif ym mlwch 14.3 (ar gyfer asedion ar y cyd) neu 13.1 (os delir y cyfrif fel tenantiaid cydradd). Ond mae'r gwrthwyneb yn gymwys hefyd, ac os na ddarparodd yr ymadawedig unrhyw ran o'r arian yn y cyfrif, yna cyhyd â nad oedd yn fwriad gan yr ymadawedig i roi rhodd, does dim angen cynnwys unrhyw beth am y cyfrif ar y cyd ar ffurflen IHT205(2006).

Amcangyfrif gwerthoedd ac ystadau bychain

Beth ddylwn wneud os na allaf gael prisiad manwl gywir?

Os na wyddoch union swm neu werth unrhyw eitem fach, fel ad-daliad treth incwm neu fil y cartref, peidiwch â gohirio gwneud cais am y grant dim ond oherwydd na wyddoch yr union ffigurau. Gallwch ddefnyddio ffigur sydd wedi'i amcangyfrif. Ni ddylech fwrw amcan ynghylch gwerth ased ond dylech ystyried amcangyfrif ar sail yr wybodaeth sydd ar gael i chi. Os byddwch yn cynnwys amcangyfrif, ticiwch y blwch wrth ochr y ffigur dan sylw.

A oes rhaid i mi gael prisiadau manwl gywir o hyd pan fydd yr ystâd yn fach iawn?

Nac oes, does dim rhaid gwneud hynny.

Os yw gwerth gros yr ystâd yn debygol o fod yn is na £200,000, neu os yw wedi ei eithrio oherwydd ei fod yn cael ei drosglwyddo i briod neu bartner sifil, gallwch amcangyfrif gwerth yr asedion. Ni ddylech fwrw amcan ynghylch gwerth ased ond dylech ystyried amcangyfrif ar sail yr wybodaeth sydd ar gael i chi. Does dim angen ticio'r blychau i ddangos bod y ffigurau wedi'u hamcangyfrif mewn ystadau o'r fath.

Cwblhau ffurflen IHT205(2006)

Tudalen 1

Ynglŷn â'r person a fu farw

Cwblhewch ran uchaf ffurflen IHT205(2006) gan roi enw, dyddiad y farwolaeth ac unrhyw wybodaeth arall y gofynnwn amdani ynglŷn â'r ymadawedig

Ar gyfer statws priodasol neu bartneriaeth sifil dewiswch y cod priodol a'i nodi yn y blwch a ddarparwyd.

Nodwch alwedigaeth yr ymadawedig a p'un a oeddynt wedi ymddeol ai peidio.

Dylech fod yn gallu dod o hyd i rif Yswiriant Gwladol yr ymadawedig ar lythyrau a anfonwyd gan CThEM neu ar P60 pensiwn y wladwriaeth. Os oedd yr ymadawedig yn derbyn budd-daliadau a dalwyd yn uniongyrchol i'w cyfrif banc, yna bydd y rhif Yswiriant Gwladol i'w weld ar gyfriflen y banc.

Ticiwch flychau 1.8 - 1.10 i ddangos pa berthnasau a oroesodd yr ymadawedig, ond ysgrifennwch **nifer** y plant a'r wŷrion ym mlychau 1.11 and 1.12.

Ynglŷn â'r ystâd

Cwestiwn 2

Os oedd yr ymadawedig wedi rhoi unrhyw roddion (neu wedi trosglwyddo

Rhoddion a throsglwyddiadau

unrhyw asedion) yn ystod eu hoes, bydd angen i chi ystyried y rhain i ganfod p'un a yw'r ystâd yn gymwys fel ystâd eithriedig. Rhaid dechrau gyda phob rhodd a throsglwyddiad a wnaed gan yr ymadawedig; hyd yn oed y rheiny a wnaed i'w priod neu bartner sifil neu i elusen gymwys.

Bydd rhodd neu drosglwyddiad yn berthnasol at ddibenion treth etifeddiant os bydd gwerth ystâd yr ymadawedig wedi gostwng ar ôl rhoi rhodd neu drosglwyddo ased. Bydd hyn yn cynnwys rhoddion syml o arian parod neu rodd o ased penodol. Bydd trafodion eraill fel gwerthu tŷ am bris sy'n llai na'i werth marchnad llawn, neu rodd o gyfranddaliadau sy'n arwain at yr ymadawedig yn colli rheolaeth dros gwmni yn berthnasol hefyd. Os ydych yn ansicr ynglŷn ag effaith trafodyn at ddibenion treth etifeddiant, yna ffoniwch ein llinell gymorth i ofyn am eu cyngor.

Cwestiwn 2(a)

Gallwch ateb 'Naddo' i'r cwestiwn hwn os nad oedd gwerth yr unig roddion a roddwyd gan yr ymadawedig yn fwy na £3,000 pob blwyddyn. Gallwch anwybyddu rhoddion pen-blwydd, ac achlysuron dathlu arferol neu anrhegion ar achlysur dathlu priodas neu bartneriaeth sifil.

Os rhoddodd yr ymadawedig roddion (neu wneud trosglwyddiadau eraill) sy'n fwy na £3,000 mewn unrhyw un flwyddyn, gallwch ddidynnu rhyddhad penodol o'r rhoddion. Yr unig ryddhad y gallwch ddidynnu i ganfod p'un a yw'r ystâd yn gymwys fel ystâd a eithrir yw

- Rhyddhad rhoddion bychain
- Rhyddhad blynyddol
- Rhyddhad ar gyfer rhoddion a wnaed fel gwariant arferol o incwm
- Rhyddhad ar roddion a wnaed ar achlysur dathlu priodas neu bartneriaeth sifil

Gallwch ateb 'Naddo' i'r cwestiwn hwn o hyd os mai'r **unig** roddion a roddodd yr ymadawedig

- oedd rhai i unigolion yn unig a wnaed mwy na 7 mlynedd cyn y farwolaeth, neu
- oedd rhai a gwmpaswyd yn gyfan gwbl gan y rhyddhad.

Cwestiwn 2(b)

Rydym yn esbonio beth a olygir gan ymddiriedolaeth at ddibenion treth etifeddiant yn y nodiadau ar gyfer cwestiwn 4. Os atebwch 'Do' i gwestiwn 2(b), caiff yr ymadawedig ei drin/thrin fel petai wedi trosglwyddo neu roi fel rhodd, asedion yr ymddiriedolaeth yr oedd ganddynt hawl i elwa ohonynt ond sydd bellach wedi dod i ben. Golyga hyn bod yn rhaid i asedion yr ymddiriedolaeth gydymffurfio â'r rheolau sy'n berthnasol i roddion a dylid ei hychwanegu at roddion eraill neu drosglwyddiadau a wnaed gan yr ymadawedig ei hun.

Os atebwch 'Do' i'r naill ran neu'r llall o gwestiwn 2, rhaid i'r rhoddion neu'r trosglwyddiadau gymhwyso fel 'trosglwyddiadau penodol'. Dim ond asedion a nodir isod a ellir eu hystyried yn 'drosglwyddiadau penodol' cymwys

- arian parod, neu
- stociau a chyfranddaliadau a restrwyd, neu
- nwyddau'r tŷ a nwyddau personol, neu
- tir ac adeiladau (gweler isod), a

rhaid i gyfanswm gwerth y rhoddion *ar adeg rhoi'r rhoddion*, ar ôl didynnu unrhyw ryddhad sy'n ddyledus, fod yn llai na £150,000.

Dylech gynnwys gwerth yr holl roddion a'r trosglwyddiadau ym mlwch 14.1. Os oedd y trosglwyddiad oherwydd bod yr ymadawedig wedi ildio ei hawl i elwa o ymddiriedolaeth, ysgrifennwch enw'r person a sefydlodd yr ymddiriedolaeth a'r dyddiad y'i sefydlwyd ym mlwch 16.

Rhodd o dir ac adeiladau

Bydd rhodd o dir ac adeiladau yn cymhwyso fel 'trosglwyddiad penodol' dim ond os oedd yn rhodd lwyr rhwng unigolion. Os oedd y rhodd o dir ac adeiladau i ymddiriedolaeth, neu os cadwodd yr ymadawedig buddiant o unrhyw fath yn ôl o'r eiddo neu os oedd hawl ganddo/ganddi ddefnyddio'r eiddo **peidiwch â chwblhau'r ffurflen IHT205(2006) ymhellach - bydd angen i chi gwblhau ffurflen IHT400.**

Os nad oedd yr asedion a roddwyd o'r math a restrwyd uchod, peidiwch â chwblhau'r ffurflen IHT205(2006) ymhellach – bydd angen i chi gwblhau ffurflen IHT400.

Neu, os yw gwerth yr holl roddion a'r trosglwyddiadau ym mlwch 14.1, ar ôl didynnu'r rhyddhad, yn fwy na £150,000, peidiwch â chwblhau'r ffurflen IHT205(2006) ymhellach – bydd angen i chi gwblhau ffurflen IHT400.

Fodd bynnag, os yw'r gwerth yn fwy na £150,000 dim ond oherwydd i'r ymadawedig roi rhoddion a fyddai wedi'u heithrio o dan un o'r "Eithriadau eraill" a restrwyd isod, gallwch barhau i gwblhau ffurflen IHT205(2006) ac ysgrifennu gwerth sy'n fwy na £150,000 ym mlwch 14.1. Ceir rhai enghreifftiau isod sy'n esbonio'r rheol hon.

Rhyddhad a ellir ei ddidynnu

Gallwch ddidynnu rhai eithriadau penodol o unrhyw roddion neu drosglwyddiadau oes a wnaed gan yr ymadawedig. Os yw'r holl roddion neu'r trosglwyddiadau oes yn bodloni'r amodau ar gyfer yr eithriadau ac mae cyfanswm yr holl roddion yn llai na'r terfynau arian a roddwyd, gallwch ateb 'Naddo' i gwestiwn 2 o hyd.

Eithriad rhoddion bychain

Caiff rhoddion sy'n llai na £250 i unrhyw un person mewn unrhyw un flwyddyn dreth eu heithrio. Mae'r eithriad hwn yn cynnwys anrhegion pen-blwydd neu ar adeg gwyliau eraill.

Ni allwch ddefnyddio'r rhyddhad hwn ar y cyd ag unrhyw ryddhad arall. Gellir defnyddio'r rhyddhad hwn **dim ond os na fydd yr holl** roddion a roddwyd i'r un person yn yr un flwyddyn dreth yn fwy na £250.

Rhyddhad blynyddol

Caiff rhoddion sy'n llai na £3000 mewn unrhyw un flwyddyn dreth hyd at 5 Ebrill eu heithrio. Gall hyn fod yn wir am un rhodd neu gyfanswm nifer o roddion pan nad yw'r eithriad rhoddion bychain yn gymwys. Os bydd y rhoddion mewn un flwyddyn yn llai na £3,000 gellir dwyn yr hyn sy'n weddill ymlaen i'r flwyddyn nesaf (ond ddim ymhellach) a gellir ei ddefnyddio unwaith y bydd yr eithriad am y flwyddyn honno wedi ei ddefnyddio'n llwyr. Ond ni ellir cario'r eithriad yn ôl i flynyddoedd cynharach.

Rhoddion a wnaed allan o incwm

Caiff rhoddion a wnaed fel rhan o wariant arferol yr ymadawedig eu heithrio rhag treth etifeddiant ar yr amod y gallwch ddangos eu bod

- wedi ffurfio rhan o wariant arferol yr ymadawedig
- wedi eu gwneud allan o incwm, ac
- wedi gadael yr ymadawedig â digon o incwm i gynnal ei safon byw normal ef/hi

Mae 'gwariant arferol' yn golygu roedd y taliadau yn rhan reolaidd o wariant

yr ymadawedig. Enghraifft o hyn byddai pan oedd yr ymadawedig yn gwneud taliadau misol neu daliadau rheolaidd eraill i rywun arall. Ni fydd taliad unigol, hyd yn oed petai allan o incwm yn cael ei eithrio.

Os gwnaeth yr ymadawedig unrhyw roddion allan o incwm, maent yn bodloni'r amodau hyn ac mae eu cyfanswm yn llai na £3,000 bob blwyddyn, yna ni allwch ateb 'Naddo' i gwestiwn 2.

Os bydd cyfanswm y rhoddion yn fwy na £3,000 y flwyddyn, dylech ateb 'Do' i gwestiwn 2, gan roi manylion o'r rhoddion a dangos sut y didynnwyd yr eithriad ar dudalen 3 ffurflen IHT205(2006).

Rhoddion ar achlysur dathlu priodas neu bartneriaeth sifil

Os gwnaed y rhodd

- ar adeg neu ychydig cyn y briodas neu'r bartneriaeth sifil,
- i un ochr neu ddwy ochr y briodas neu'r bartneriaeth sifil, ac
- i ddod i rym yn llawn wrth i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil ddigwydd

caiff ei heithrio hyd at y terfynau canlynol

- £5,000 os oedd yr ymadawedig yn rhiant i un ochr y briodas neu'r bartneriaeth sifil
- £2,500 os oedd yr ymadawedig yn daid/nain/tad-cu/mam-gu neu'n berthynas pellach i un ochr y briodas neu'r bartneriaeth sifil
- £1,000 mewn unrhyw achos arall.

Eithriadau eraill na ellir eu didynnu wrth gyfrifo'r ystâd gros

Mae eithriadau eraill ar gael ond ni ddylech didynnu'r rhain ar yr adeg hon, er mwyn cadarnhau p'un a yw'r terfyn cyffredinol ar gyfer yr ystâd gros yn fwy na £1,000,000. Dyma'r eithriadau ar gyfer trosglwyddo i

- priod neu bartner sifil yr ymadawedig
- elusennau cymwys,

ac i bleidiau gwleidyddol, cymdeithasau tai, cronfeydd cynnal a chadw ar gyfer adeiladau hanesyddol, ac ymddiriedolaethau cyflogaion.

Enghraifft 1

Gwnaeth yr ymadawedig roddion o £100,000 i'w blant, £100,000 i'w wraig a bu farw gan adael ystâd o £500,000. Gwerth trethadwy'r rhodd yw

Cyfanswm y rhoddion	200,000
Llai	
Eithriad blynyddol	-6,000(heb ddefnyddio'r flwyddyn flaenorol)
Eithriad priod neu bartner sifil	<u>-100,000</u>
Gwerth trethadwy	94,000

Mae'r gwerth trethadwy o dan y terfyn ar gyfer rhoddion o £150,000, felly gall yr ystâd gymhwyso fel ystâd eithriedig. Fodd bynnag, pan fyddwch yn llenwi ffurflen IHT205(2006) dylech anwybyddu'r eithriad ar gyfer priod neu bartner sifil ac ysgrifennu'r gwerth o £194,000 ym mlwch 14.1. Pan ychwanegir hwn at werth yr ystâd ar adeg y farwolaeth, ni ddylai'r gwerth gros fod yn uwch na £1,000,000 - felly gall yr ystâd gymhwyso fel ystâd eithriedig.

Enghraifft 2

Rhoddodd yr ymadawedig roddion o £50,000 i'w blant, £50,000 i elusen gymwys a bu farw gan adael ystâd o £950,000. Yma, mae gwerth trethadwy'r rhoddion yn £44,000, ond ni ddylech ddidynnu'r eithriad elusennol a dylech ysgrifennu £94,000 ym mlwch 14.1. Pan ychwanegir hwn at yr ystâd ar adeg y farwolaeth o £950,000, mae'r gwerth gros yn uwch na £1,000,000. Nid yw'r ystâd yn cymhwyso fel ystâd eithriedig, hyd yn oed er hynny, bod gwerth trethadwy'r rhoddion yn llai na £150,000.

Enghraifft 3

Rhoddodd yr ymadawedig roddion o £170,000 i'w blant, £50,000 i elusen gymwys a bu farw gan adael ystâd o £600,000. Yma, mae gwerth trethadwy'r rhoddion yn £164,000.

Gan fod hyn yn uwch na'r terfyn ar gyfer rhoddion o £150,000, ni all yr ystâd gymhwyso fel ystâd eithriedig hyd yn oed pan ychwanegwch yr eithriad ar gyfer elusennau yn ôl i roi cyfanswm o £214,000 ac ychwanegu hwn at yr ystâd ar adeg y farwolaeth sef £600,000, nid yw gwerth gros yn uwch na £1,000,000.

Rhoddion a wnaed mwy na 7 mlynedd cyn y farwolaeth

Yn y rhan fwyaf o achosion, gallwch anwybyddu rhoddion a throsglwyddiadau a wnaed mwy na 7 mlynedd cyn y farwolaeth. Ond ni ddylech anwybyddu rhoddion neu drosglwyddiadau

- pan gadwodd yr ymadawedig yn ôl peth budd neu fuddiant yn yr asedion a roddwyd am ddim neu a oedd hawl ganddo/ganddi i ddefnyddio'r asedion a roddwyd, (pryd ddylech ateb 'Do' i gwestiwn 3a neu 3b), **neu**
- pan roedd yr ymadawedig wedi rhoi rhodd neu wedi trosglwyddo ased o fewn 7 mlynedd i'r farwolaeth ac o fewn 7 mlynedd i'r rhodd hwnnw roedd yr ymadawedig wedi trosglwyddo asedion i ymddiriedolaeth ddewisiadol neu i gwmni.

Yn yr ail sefyllfa, nid oes rhaid i chi ddweud wrthym am y rhodd neu'r trosglwyddiad a wnaed mwy na 7 mlynedd yn ôl. Ond efallai y bydd gan y person a dderbyniodd y rhodd neu'r trosglwyddiad a wnaed o fewn 7 mlynedd i'r farwolaeth rhwymedigaeth ar wahân i dreth etifeddiant. Os ydych yn ymwybodol bod yr amgylchiadau hyn yn berthnasol i'r ymadawedig, argymhellwn fod y person a dderbyniodd y rhodd neu'r trosglwyddiad yn ffonio ein llinell gymorth i drafod eu hamgylchiadau.

Cwestiwn 3

Os yw'r ymadawedig wedi rhoi rhodd pan fo ef/hi naill ai

Rhoddion â budd amodol

- wedi cadw budd o unrhyw fath yn yr asedion a roddwyd, yn ôl, neu
- a hawl i barhau i ddefnyddio'r asedion a roddwyd, neu
- nid yw'r person sy'n derbyn yr asedion wedi cael perchenogaeth gyflawn ohonynt,

gelwir y rhodd yn "rhodd â budd amodol". Ceir enghraifft syml iawn pan fydd rhywun yn rhoi ei dŷ/thŷ i rywun arall, yn aml iawn plentyn, ond yn parhau i fyw yn y tŷ.

Os mai tŷ oedd yr ased a roddwyd, ac roedd naill ai'r ymadawedig neu ei briod / phriod neu bartner sifil yn parhau i elwa o'r eiddo, neu'n parhau i ddefnyddio'r eiddo, trwy brydles neu ymddiriedolaeth neu hawl neu drefniant tebyg, gellir trin y rhodd fel rhodd amodol.

Os bydd rhywbeth yn debyg i hyn yn gymwys i'r ymadawedig, ac os nad ydych yn sicr p'un a ddylid trin y trefniant fel rhodd amodol, dylech ffonio ein llinell gymorth. Yn dibynnu ar gymhlethdod y trefniadau, efallai na fyddwn yn gallu rhoi ateb terfynol ar y ffôn. Yn yr amgylchiadau hyn argymhellwn eich

bod yn ateb 'Do' i gwestiwn 3(a).

3(c) Cyflwynwyd tâl treth incwm ar asedion yr oedd yn eich meddiant yn flaenorol yn y flwyddyn dreth 2005/06. Yn gyffredinol mae'r tâl hwn yn gymwys i asedion a waredwyd gan berson ond lle'r oedd y person yn parhau i gael budd neu fwynhad ohono. Gall hyn fod yn gymwys hefyd pan gyfrannodd person at brynu ased ar gyfer person arall ac mae'r un a gyfrannodd wedyn yn derbyn budd neu fwynhad ohono. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r opsiwn i'r trethdalwr i ddewis cynnwys yr asedion dan sylw fel rhan o'i ystâd/hystâd at ddibenion treth etifeddiant o dan y rheolau neilltuo budd. Cyhyd a bod y 'dewis' yn parhau ni fyddai'n rhaid i'r trethdalwr dalu'r dreth incwm.

Dylech ateb 'Do' os cafodd yr ymadawedig fudd o ased yr oedd yn berchen arno yn flaenorol a dewisodd ef/hi dalu'r tâl IHT o dan reolau neilltuo budd, yn hytrach na thalu tâl treth incwm ar asedion roedd yn ei feddiant/meddiant yn flaenorol. I wneud y dewis hwn rhaid bod yr ymadawedig wedi cyflwyno ffurflen IHT 500. Nid yw'n bosibl gwneud y dewis ar ran yr ymadawedig ar ôl y farwolaeth.

Dylech ateb 'Naddo' os cafodd yr ymadawedig fudd o ased yr oedd yn berchen arno yn flaenorol, ac wedi talu'r tâl treth incwm ar asedion roedd yn ei feddiant/meddiant yn flaenorol neu os na wnaeth yr ymadawedig waredu neu gyfrannu tuag at brynu unrhyw asedion yn y ffordd hon.

Os atebwch "Do" i'r naill ran neu'r llall o gwestiwn 3 peidiwch â chwblhau'r ffurflen IHT205(2006) ymhellach – bydd angen i chi gwblhau ffurflen IHT400.

Cwestiwn 4
Asedion a gadwyd
mewn
ymddiriedolaeth

Mae ymddiriedolaeth yn ymrwymiad sy'n gorfodi person sy'n berchen yn gyfreithiol ar asedion (yr 'ymddiriedolwr') i ddelio â'r asedion er budd rhywun arall. Gall ymddiriedolaeth fod ar ffurf gweithred ymddiriedolaeth neu gellir ei sefydlu gan ewyllys.

Buddiant mewn
meddiant

Rydym yn galw asedion a gedwir mewn ymddiriedolaeth yn 'eiddo settledig'. Rydym yn dweud yr oedd gan yr ymadawedig 'buddiant mewn meddiant' mewn eiddo settledig pan oedd ganddynt hawl:

- i'r incwm o asedion (er enghraifft difidendau o gyfranddaliadau, llog o gyfrif banc neu rent o eiddo ar osod)
- i daliadau sy'n symiau penodedig pob blwyddyn, yn aml mewn rhandaliadau rheolaidd, neu
- i fyw mewn tŷ a defnyddio'i gynnwys heb dalu rhent.

Pan fydd yr hawl gan rywun i fyw mewn tŷ, gall hyn gael yr un effaith ag ymddiriedolaeth at ddibenion treth etifeddiant, er na fynegir yr hawl i fyw yn y tŷ yn ffurfiol fel ymddiriedolaeth er budd y person hwnnw. Yn aml bydd y math hwn o hawl yn codi o dan ewyllys person arall a gall fod yn gymwys p'un a yw'r tŷ mewn perchenogaeth ar y cyd ai peidio.

Os nad oedd yr ymadawedig yn berchen ar ei gartref/chartref, ac nid oedd yn denant ychwaith, gallent fod wedi byw yno o dan y fath drefniant. Os felly, efallai y bydd angen i chi gynnwys gwerth cartref yr ymadawedig ar ffurflen IHT205(2006). I gael gwybodaeth bellach ewch i'n gwefan yn www.hmrc.gov.uk neu ffoniwch y llinell gymorth ar **0845 30 20 900**.

Mewn rhai amgylchiadau pan fo gan berson 'fuddiant mewn meddiant', neu caiff ei drin fel petai gan y person fuddiant mewn meddiant mewn eiddo settledig, caiff ef/hi ei drin/thrin fel petai ef/hi yn berchen ar yr asedion

hynny'n bersonol. Dylech ateb 'oedd' i gwestiwn 4 os yw buddiant mewn meddiant yr ymadawedig yn

- Ymddiriedolaeth a sefydlwyd cyn 22 Mawrth 2006 neu
- Ymddiriedolaeth a sefydlwyd ar neu ar ôl 22 Mawrth 2006 **ac roedd**
 - buddiant yn union wedi'r farwolaeth
 - buddiant person anabl
 - buddiant trosiannol cyfresol

Buddiant yn union wedi'r farwolaeth

Mae buddiant yn union wedi'r farwolaeth yn golygu yr oedd gan yr ymadawedig yr hawl i elwa o'r asedion a gadwyd mewn ymddiriedolaeth sy'n bodloni'r amodau canlynol

- Sefydlwyd yr ymddiriedolaeth o dan ewyllys neu ddiffyg ewyllys
- Cafodd yr ymadawedig yr hawl i'r buddiant mewn meddiant ar farwolaeth y person y bu i'w asedion gael eu trosglwyddo i'r ymddiriedolaeth
- Nid oedd yr ymddiriedolaeth ar gyfer minorydd mewn profedigaeth neu berson anabl
- Mae'r amodau wedi bod yn berthnasol trwy gydol bodolaeth yr ymddiriedolaeth

Buddiant person annabl

Mae buddiant person anabl yn codi

- pan sefydlwyd ymddiriedolaeth ar ôl 29 Mawrth 1981 ac, yn ystod ei bywyd
 - roedd person anabl wedi elwa o, nid llai na hanner yr asedion a osodwyd ynddi **ac**
 - nid oedd gan neb **hawl** i elwa o'r ymddiriedolaeth.
- pan sefydlwyd ymddiriedolaeth ar ôl 29 Mawrth 1981 er budd person anabl (y mae ganddynt yr hawl i elwa ohoni)
- pan fo unigolyn, sy'n dioddef o gyflwr sy'n debygol o achosi iddynt fod yn berson anabl, yn sefydlu ymddiriedolaeth er ei fudd ef/budd hi ei hun, ar neu ar ôl 22 Mawrth 2006.

Mae person anabl yn un sy'n

- analluog o ganlyniad i anhwylder meddyliol (o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983), i weinyddu eu heiddo neu reoli eu materion eu hunain.
- derbyn lwfans gweini (o dan Adran 35 neu Adran 64 naill ai Deddf Nawdd Cymdeithasol 1975 neu Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1975 (Gogledd Iwerddon) neu a fyddai'n ei dderbyn oni bai nad oeddynt yn derbyn triniaethau penodol neu'n bodloni'r cymwysterau preswyl.
- derbyn lwfans byw i'r anabl, ar y gyfradd uwch neu ganolig (o dan adran 72(8) Deddf Nawdd Cymdeithasol 1975 neu Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1975 (Gogledd Iwerddon)) neu a fyddai'n derbyn oni bai nad oeddynt

wedi

darparu llety penodol neu'n bodloni'r cymwysterau preswyl.

Buddiant trosiannol cyfresol

Ceir dau fath o fuddiant trosiannol cyfresol. Mae'r cyntaf yn digwydd

- pan fo gan yr ymadawedig fuddiant mewn meddiant mewn eiddo settledig a
- pan fo'r asedion sydd wedi eu cynnwys yn yr ymddiriedolaeth bresennol, yn flaenorol yn destun ymddiriedolaeth buddiant mewn meddiant arall a sefydlwyd cyn 22 Mawrth 2006 a
- pan sefydlwyd yr ymddiriedolaeth bresennol rhwng 22 Mawrth 2006 a 5 Ebrill 2008, yn gynwysedig

Mae'r ail fath yn digwydd pan oedd gan yr ymadawedig fuddiant mewn meddiant a ddigwyddodd ar adeg marwolaeth, ar neu ar ôl 22 Mawrth 2006,

deiliad y buddiant mewn meddiant blaenorol ac os mai naill ai'r

- deiliad newydd yw priod neu bartner sifil y deiliad blaenorol, neu
- mae'r eiddo setledig yn cynnwys cytundeb yswiriant bywyd.

Os oedd gan yr ymadawedig hawl i elwa o fwy nag un ymddiriedolaeth, neu os oedd gwerth yr asedion mewn ymddiriedolaeth unigol yn fwy na £150,000, peidiwch â chwblhau'r ffurflen IHT205(2006) ymhellach – bydd angen i chi gwblhau ffurflen IHT400.

Ymddiriedolaethau tramor

Wrth benderfynu sut i ateb cwestiwn 4, does dim gwahaniaeth p'un a yw'r ymddiriedolwyr yn preswyllo yn y DU neu dramor. Rhaid i chi ystyried yr holl ymddiriedolaethau sy'n cael eu trin fel rhan o ystâd yr ymadawedig ac roedd gan yr ymadawedig yr hawl i elwa ohonynt.

Asedion ymddiriedolaeth sy'n cael eu trosglwyddo i briod neu bartner sifil yr ymadawedig neu i elusen cymwys.

Dylai asedion mewn ymddiriedolaethau sydd i'w trosglwyddo i'r priod neu'r partner sifil neu elusen gael eu heithrio wrth ystyried y terfyn o £150,000. Dylech ddangos yr eithriad rydych yn didynnu ar gyfer asedion yr ymddiriedolaeth ym mlwch 17.1.

Cwestiwn 5

Asedion tramor

Codir treth etifeddiant ar asedion byd-eang rhywun sydd â'u cartref parhaol yn y Deyrnas Unedig, felly mae'n cynnwys unrhyw asedion tramor roedden nhw'n eu perchen. Dylech gynnwys gwerth unrhyw asedion tramor mewn sterling ym mlwch 14.5.

Nid yw Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sianel yn rhan o'r Deyrnas Unedig.

Os atebwch 'Oedd' i gwestiwn 5 ac mae gwerth gros yr asedion tramor yn fwy na £100,000, peidiwch â chwblhau'r ffurflen IHT205(2006) ymhellach – bydd angen i chi gwblhau ffurflen IHT400.

Mae'r terfyn o £100,000 yn gymwys i'r ystâd yn ei chyfanrwydd, felly er mwyn sicrhau nad yw'r ystâd yn uwch na'r terfyn o £100,000, bydd angen i chi ychwanegu at ei gilydd

- unrhyw asedion tramor yr oedd yr ymadawedig yn eu perchen yn ei enw ef/henw hi ei hun, yn ogystal â
- eu cyfran o unrhyw asedion tramor maen nhw'n eu perchen ar y cyd, a
- unrhyw asedion tramor a gedwir mewn ymddiriedolaeth.

Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar asedion tramor, efallai y bydd yn rhaid i chi gael grant ar wahân yn y wlad lle y lleolir yr asedion, er mwyn delio â nhw.

Tudalen 2
Cwestiwn 6

Premiymau yswiriant

Os oedd yr ymadawedig yn talu premiymau yswiriant ar bolisi a fydd yn talu allan i rywun arall, efallai y bydd yn rhaid i chi ystyried y premiymau a dalwyd fel rhoddion. Gallwch ateb 'Nac oedd' i'r cwestiwn hwn os oedd y polisi er budd priod neu bartner sifil yr ymadawedig. Os atebwch 'Oedd' i'r cwestiwn hwn, mae'n rhaid i chi ateb cwestiwn 11 hefyd.

Pensiynau
(Cwestiynau 7 i 12)

Pan fo rhywun yn derbyn pensiwn yn ychwanegol at Bensiwn y Wladwriaeth, bydd y pensiwn ychwanegol fel arfer yn darparu dau fath o fudd. Y rhain yw

- Buddiannau ymddeol, **neu**
- Buddiannau marwolaeth

Nid yw'n bosibl cymryd y ddau fuddiant. Os bydd person yn cyrraedd oed ymddeol ac yn cymryd y buddiannau ymddeol (cyfandaliad yn ogystal â phensiwn), ni fydd y buddiant marwolaeth yn gymwys. Fodd bynnag, os bydd ef/hi yn marw cyn cymryd y buddiant ymddeol, telir y buddiant marwolaeth yn unol â rheolau'r cynllun pensiwn neu ddarpariaethau'r polisi. Ni thelir pensiwn ymddeol.

Rhif ein llinell gymorth ar gyfer pensiynau yw 0131 777 4296. Sylwer bod y rhif hwn ar gyfer treth etifeddiant yn unig.

Cynlluniau a gymeradwywyd, sydd heb eu cymeradwyo a'u cofrestru

At ddibenion treth incwm, mae cynlluniau pensiwn a pholisïau pensiwn yn rhai sydd wedi eu cymeradwyo, heb eu cymeradwyo neu eu cofrestru. Bydd angen i chi ganfod gan ddarparwr y pensiwn pa un oedd yn gymwys i gynllun neu bolisi'r ymadawedig.

Gall papurau'r cynllun roi'r wybodaeth hon. Os na fyddant yn rhoi'r wybodaeth dylai darparwr y pensiwn fod yn gallu rhoi'r wybodaeth i chi.

Cwestiwn 7

Mae cronfa bensiwn a sicrhawyd trwy ddulliau amgen (PSA) yn gronfa bensiwn ansicredig ar gyfer person sy'n 75 oed neu'n hŷn.

Mae cronfa bensiwn ansicredig yn gronfa mewn cynllun pensiwn cofrestredig a glustnodwyd i ddarparu buddiannau i berson ond sydd heb ei ddefnyddio i brynu buddiannau pensiwn neu flwydd-dal (heblaw am flwydd-dal tymor byr sy'n daladwy am nid fwy na 5 mlynedd sy'n dod i ben cyn bo'r aelod yn cyrraedd 75 mlwydd oed)

Mae cynllun pensiwn sydd heb ei gofrestru yn gynllun pensiwn neu'n drefniant a gofrestrwyd o dan Adran 153 Deddf Cyllid 2004.

Gallai'r ymadawedig fod wedi elwa o gronfa PSA oherwydd

- mai ef/hi oedd aelod gwreiddiol y cynllun er ei fwyn ei hun, **neu**
- bu farw ef/hi gyda chronfa PSA dibynnydd, yr oedd hawl ganddynt iddi fel 'dibynnydd' neu 'dibynnydd perthnasol' aelod y cynllun a fu farw.

Os gwnaeth yr ymadawedig elwa o gronfa PSA ni fydd yr ystâd yn cymhwyso fel ystâd eithriedig. Peidiwch â chwblhau ffurflen IHT205(2006) - bydd angen i chi gwblhau ffurflen IHT400.

Cwestiwn 8

Dylech ateb 'Oedd' i'r cwestiwn hwn os oedd yr ymadawedig yn elwa o gronfa bensiwn ansicredig ar gyfer dibynnydd, y daethant i fod a hawl iddo fel 'dibynnydd perthnasol' aelod o'r cynllun a fu farw gyda chronfa bensiwn a sicrhawyd trwy ddulliau amgen.

Os atebwch 'Oedd' i gwestiwn 8, ni fydd yr ystâd yn cymhwyso fel ystâd eithriedig. Peidiwch â chwblhau ffurflen IHT205(2006) - bydd angen i chi gwblhau ffurflen IHT400.

Diffinnir 'dibynnydd' gan Atodlen 28 para 15 Deddf Cyllid 2004 fel person a oedd ar ddyddiad marwolaeth aelod y cynllun

- yn briod neu'n bartner sifil yr aelod **neu**
- yn blentyn yr aelod
 - a oedd **o dan** 23 mlwydd oed **neu**
 - a oedd yn 23 mlwydd oed **neu'n hŷn** ac ym marn Gweinyddwr y Cynllun yn ddibynnol ar yr aelod o ganlyniad i nam corfforol neu feddyliol.
- Unrhyw berson arall a oedd ym marn Gweinyddwr y Cynllun
 - yn ddibynnol yn ariannol ar yr aelod **neu**
 - roedd ganddo/ganddi gysylltiad ariannol neu ddibyniaeth gilyddol gydag aelod **neu**
 - roedd yn ddibynnol ar yr aelod oherwydd nam corfforol neu feddyliol.

Diffinnir 'ddibynnydd' gan Atodlen 22 para 151B(6) Deddf Cyllid 2006 fel person a oedd ar ddyddiad marwolaeth aelod y cynllun

- a oedd yn 'ddibynnydd perthnasol', yn ôl y diffiniad uchod, a oedd yn briod neu'n bartner sifil y person **neu**
- a oedd yn ddibynnol yn ariannol ar yr aelod ar yr adeg honno.

Cwestiwn 9

Trosglwyddo hawliau pensiwn

Os oedd hawl gan yr ymadawedig i gael pensiwn (naill ai o gynllun pensiwn neu o bolisi pensiwn personol) ac nid oeddynt wedi cymryd eu buddiannau pensiwn llawn erbyn iddynt farw, efallai y bydd yn rhaid i chi ystyried unrhyw newidiadau a wnaethant i'w buddiannau pensiwn. **Gallwch anwybyddu Pensiwn y Wladwriaeth** wrth ateb y cwestiwn hwn.

Gallwch ateb 'Nac oedd' i'r cwestiwn hwn pan oedd yr ymadawedig yn codi ei bensiwn/phensiwn ymddeol yn llawn. Os atebwch 'Oedd' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi ateb cwestiwn 12 hefyd.

Cwestiwn 10(a)
Hawliad pensiwn a delir i'r ystâd

Os oedd yr ymadawedig yn cael pensiwn o gynllun pensiwn neu bolisi pensiwn, gallai'r taliadau fod wedi eu gwarantu am gyfnod penodol. Os yw'r cyfnod gwarantedig yn dod i ben ar ôl y farwolaeth, bydd y taliadau yn parhau i gael eu talu i'r ystâd, ac mae'r hawl i gael y taliadau hynny yn ased yr ystâd. Os yw hyn yn gymwys i ystâd yr ymadawedig, atebwch 'Oedd' i gwestiwn 10(a) gan gynnwys gwerth yr hawl i gael y taliadau pensiwn ym mlwch 13.11

Os oes modd i chi ddefnyddio'r rhyngwrwyd, gallwch lawr lwytho meddalwedd a elwir yn 'Annuity Calculator' o wefan Cyllid a Thollau EM. Gellir ei ddefnyddio i gyfrifo gwerth yr hawl. Fel arall, ychwanegwch yr holl daliadau sydd heb eu derbyn o hyd, a didynnwch 25% i roi amcangyfrif.

Dylech anwybyddu'r pensiwn gostyngol/is sy'n parhau i'w gael ei dalu yn *uniongyrchol* i briod neu bartner sifil yr ymadawedig sy'n goroesi.

Cwestiwn 10(b)

Os bu farw'r ymadawedig cyn ymddeol, neu cyn cymryd y buddiannau pensiwn, efallai y telir cyfandaliad o dan y cynllun pensiwn neu'r polisi pensiwn. Bydd cyfandaliad yn rhan o ystâd yr ymadawedig

- os yw'n daladwy i'r cynrychiolwyr personol fel hawl neu oherwydd nad does neb arall yn gymwys am daliad, neu
- os oedd yr ymadawedig yn gallu rhoi cyfarwyddyd ynghylch pwy ddylai'r cyfandaliad gael ei dalu iddo/iddi trwy wneud enwebiad/cyfarwyddyd cyfrwymol, neu

Cwestiwn 10(b)

- petai'r ymadawedig yn gallu creu sefyllfa (er enghraifft, trwy ddiddymu enwebiad) er mwyn i'r cyfandaliad fod yn daladwy i'r ystâd, neu
- os yw'n ad-daliad cyfraniadau.

Dylid cynnwys swm y cyfandaliad ym mlwch 13.11 ym mhob un o'r achosion hyn.

Ni fydd cyfandaliad yn rhan o ystâd yr ymadawedig os yw ymddiriedolwyr y pensiwn yn rhydd i benderfynu i bwy y mae'n daladwy (hyd yn oed os penderfynant dalu'r cyfandaliad i'r cynrychiolwyr personol). Yn yr un modd, nid yw unrhyw daliadau 'ex gratia' a delir i'r ystâd yn cael eu hystyried yn rhan o'r ystâd at ddibenion IHT, oherwydd nad oedd gan yr ymadawedig hawl i'w derbyn

Rhaid i chi gymryd gofal wrth benderfynu yn union sut caiff y cyfandaliad ei dalu. Os yw'r ymadawedig wedi cwblhau 'llythyr dymuniadau', mae'n ddigon posib y telir y cyfandaliad gan yr ymddiriedolwyr yn unol â'r llythyr. Ond hyd yn oed os golyga hynny y telir y cyfandaliad i'r ystâd, nid yw'n rhan o ystâd yr ymadawedig at ddibenion treth etifeddiant, oherwydd nid oedd y 'llythyr dymuniadau' yn ymrwymo'r ymddiriedolwyr. Dim ond os oedd y cyfandaliad yn daladwy o dan enwebiad cyfrwymol y dylai'r cyfandaliad gael ei ystyried fel rhan o'r ystâd, waeth i bwy y caiff ei dalu.

Os talwyd cyfandaliad, atebwch 'Oedd' i gwestiwn 10(b). Os penderfynwch nad yw'n rhan o'r ystâd, rhowch enw'r cynllun pensiwn a dywedwch pam y credwch nad yw'n rhan o'r ystâd ym mlwch 16.

Os penderfynwch fod y cyfandaliad yn rhan o'r ystâd, dylech gynnwys y ffigur hwn ym mlwch 13.1.

Cwestiwn 11

Atebwch y cwestiwn hwn dim ond os ateboch 'Oedd' i gwestiwn 6.

Premiymau yswiriant

Gallwch ateb 'Naddo' i gwestiwn 11(a), pan oedd yr ymadawedig yn talu premiymau ar bolisi yswiriant er budd rhywun arall

- os **na** ddelir y polisi yswiriant mewn ymddiriedolaeth, **ac**
- os cwmpesir y premiymau a delir bob blwyddyn gan ryddhad am roddion rheolaidd allan o incwm, **ac**
- os mai'r ateb i gwestiwn 11(b) yw 'Naddo'.

Os **na** chedwir y polisi yswiriant mewn ymddiriedolaeth ac os **na** chwmpesir y premiymau gan y rhyddhad, yna ystyrir pob premiwm yn rhodd o arian. Rhaid i chi ateb 'Do' i gwestiwn 11(a) a chymryd y premiymau i ystyriaeth wrth ateb cwestiwn 2.

Gallwch ateb 'Naddo' i gwestiwn 11(a) yn ogystal

- os delir y polisi yswiriant mewn ymddiriedolaeth (dyma'r achos mwyaf cyffredin), **ac**
- os cafodd ei osod mewn ymddiriedolaeth mwy na 7 mlynedd yn ôl, **ac**
- os cwmpesir y premiymau a dalwyd pob blwyddyn gan y rhyddhad ar gyfer rhoddion rheolaidd allan o incwm, **ac**
- os mai 'Naddo' yw'r ateb i gwestiwn 11(b).

Os delir y polisi yswiriant mewn ymddiriedolaeth, a chafodd ei osod mewn ymddiriedolaeth mwy na 7 mlynedd yn ôl, ond **ni** chwmpesir y premiymau

gan y rhyddhad, yna ystyrir pob premiwm yn rhodd o arian. Rhaid i chi ateb 'Do' i gwestiwn 11(a) a chymryd y premiymau i ystyriaeth wrth ateb cwestiwn 2.

Mewn unrhyw achos arall, er enghraifft pan roddwyd y polisi mewn ymddiriedolaeth o fewn 7 mlynedd i'r farwolaeth, neu os atebwch 'Do' i gwestiwn 11(a) yn ogystal â 11(b) peidiwch â chwblhau'r ffurflen IHT205(2006) ymhellach – bydd angen i chi gwblhau ffurflen IHT400.

Cwestiwn 12

Os oedd gan yr ymadawedig hawl i elwa o gynllun pensiwn neu bolisi pensiwn ac os nad yw ef/hi wedi cymryd ei fuddiannau/buddiannau llawn cyn iddo/iddi farw, yna bydd angen i chi ateb y cwestiwn hwn.

Trosglwyddo hawliau pensiwn

Os nad oedd yr ymadawedig wedi cymryd ei hawliad llawn o gynllun pensiwn neu o bolisi pensiwn personol, gallai unrhyw newid i'r buddiannau yr oedd ganddo/ganddi hawl iddynt fod wedi achosi trosglwyddiad o asedion. Nid yw trosglwyddiad o'r fath yn 'drosglwyddiad penodedig' ac felly ni all yr ystâd gymhwyso fel ystâd wedi ei heithrio.

Mae'r nodiadau hyn yn gymwys dim ond pan oedd unrhyw drafodion ynglŷn â'r buddiannau pensiwn wedi digwydd ar adeg pan gafodd yr ymadawedig ddiagnosis yn cadarnhau bod afiechyd marwol arno/arni, neu a oedd mor wael ei iechyd/hiechyd nad oedd yn bosib ei yswirio/hyswirio.

Pan ddigwyddodd trafodion ar adeg pan oedd yr ymadawedig mewn iechyd da am ei oedran/hoedran, yna hyd yn oed os bu ef/hi farw yn fuan wedi hynny, gallwch ateb 'Naddo' i gwestiwn 12(a) yn ogystal â 12(b).

Cwestiwn 12(a)

Atebwch y cwestiwn hwn dim ond os ateboch 'Oedd' i gwestiwn 9.

Bydd person yn gwaredu'r buddiannau sy'n daladwy o dan gynllun pensiwn neu bolisi pensiwn pan fydd ef/hi, er enghraifft, yn gosod y buddiannau marwolaeth mewn ymddiriedolaeth, neu'n clustnodi rhan o'r pensiwn ar gyfer rhywun arall. Os digwyddodd y gwarediad hwn ar adeg pan gafodd yr ymadawedig ddiagnosis yn cadarnhau bod afiechyd marwol arno/arni, neu a oedd mor wael ei iechyd/hiechyd nad oedd yn bosib ei yswirio/hyswirio, dylech ateb 'Do' i gwestiwn 12(a).

Cwestiwn 12(b)

Gall person newid y buddiannau yr oedd ganddo/ganddi hawl iddynt o dan gynllun pensiwn neu bolisi pensiwn drwy

- gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun neu'r polisi pensiwn,
- trosglwyddo ei fuddiannau/buddiannau o un cynllun pensiwn i un arall,
- methu â chymryd y pensiwn wrth gyrraedd oed pensiwn,
- methu â gwneud cais am ymddeoliad ar sail iechyd pan oedd yr ymadawedig yn bodloni'r gofynion ar gyfer y math hwnnw o ymddeoliad
- dewis codi incwm neu wneud newidiadau i godi pensiwn sydd eisoes wedi'i drefnu
- dewis ymddeol dros gyfnod neu wneud newidiadau i'r nifer o ddarnau a gymerir pan fo'r dewis eisoes wedi ei wneud i ymddeol dros gyfnod

Mae 'codi incwm' yn sefyllfa benodol pan fo'r ymadawedig wedi cyrraedd oed pensiwn ond wedi dewis peidio â defnyddio ei fuddiannau/buddiannau ymddeol i brynu blwydd-dal. Yn lle hynny, mae ef/hi yn dewis 'codi' lefel penodol o incwm o'r cronfeydd pensiwn gyda'r bwriad o brynu blwydd-dal yn y dyfodol.

'Ymddeoliad dros gyfnod' yw pan fo'r ymadawedig wedi rhannu ei hawl i bensiwn yn gyfres o ddarnau ac wedi cytuno â'r cynllun gyda'r darparwr pensiwn i gymryd hyn a hyn o ddarnau bob blwyddyn yn ystod ei ymddeoliad/hymddeoliad.

Os digwyddodd newidiadau o'r fath pan gafodd yr ymadawedig ddiagnosis yn cadarnhau bod afiechyd marwol arno/arni, neu a oedd mor wael ei iechyd/hiechyd nad oedd yn bosib ei yswirio/hyswirio, dylech ateb 'Do' i gwestiwn 12(b).

Os atebwch 'Oedd' i gwestiwn 9 a 'Naddo' i gwestiynau 12(a) a 12(b) gallwch barhau i gwblhau ffurflen IHT205(2006).

Ond os atebwch 'Do' i naill ai gwestiwn 12(a) neu 12(b), peidiwch â chwblhau ffurflen IHT205(2006) ymhellach – bydd angen i chi gwblhau ffurflen IHT400.

13. Asedion yr ymadawedig

Rhaid i chi gynnwys y gwerth gros ar gyfer asedion yr ymadawedig ei hun a'u cyfran nhw o unrhyw asedion a ddelir fel tenantiaid cydradd (nad ydynt yn cael eu trosglwyddo trwy oroesedd) yn adran 13. Os ydych yn cynnwys cyfran ased, er enghraifft tŷ, dylech restru pob eitem a gedwir fel tenantiaid cydradd ym mlwch 16. Dylech nodi gwerth yr holl ased a datgan cyfran yr ymadawedig, er enghraifft, 'hanner'. Ni ddylid cynnwys yma asedion ar y cyd a drosglwyddir i'r cydberchennog sy'n goroesi (trwy oroesedd). Yn lle hynny dylech eu cynnwys ym mlwch 14.3.

Dylech wedyn gynnwys gwerth rhan yr ymadawedig o ased a gedwir fel tenantiaid cydradd yn y blwch perthnasol yn adran 13.

Mae gwerth gros yn golygu gwerth yr asedion cyn didynnu unrhyw ddyled, rhyddhad neu eithriad. Os bydd angen i chi gynnwys amcangyfrif am y gwerth, yna darllenwch y paragraff 'Amcangyfrif gwerthoedd ac ystadau bychain' sydd yn ymddangos ynghynt yn y canllaw hwn.

Rhaid i chi gynnwys yr holl asedion a oedd yn rhan o ystâd yr ymadawedig *ar ddyddiad y farwolaeth*.

Rydym yn dweud hyn oherwydd os bydd dau berson, gŵr a gwraig dyweder, yn marw yn syth ar ôl ei gilydd, mae'n bosibl i fuddiolwyr yr ail un i farw newid trosglwyddiad ystâd yr un cyntaf i farw trwy gyflawni Gweithred Amrywio o fewn dwy flynedd i'r farwolaeth honno. Canlyniad hyn yw y gallant ailgyfeirio asedion yn yr ystâd gyntaf i ffwrdd o'r ail ystâd.

Ond bydd ailgyfeirio o dan yr amgylchiadau hyn yn effeithiol at ddibenion treth etifeddiant *yn unig*. Nid yw'n newid gwerth yr ail ystâd at ddibenion profiant, felly gwerth yr ail ystâd *ar ddyddiad y farwolaeth* sy'n pennu p'un a allwch gwblhau ffurflen IHT205(2006), neu p'un a oes rhaid i chi gwblhau ffurflen IHT400. Os yw gwerth gros yr ail ystâd ar adeg y farwolaeth yn uwch na'r terfyn eithrio ystâd, rhaid i chi gwblhau ffurflen IHT400.

Blwch 13.1

Arian parod, arian mewn banciau, cymdeithasau

Dylech gynnwys yn y blwch hwn gyfanswm yr holl arian mewn cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu, buddsoddiadau Cynilion Cenedlaethol ac arian parod pan fu farw'r person. Bydd hyn yn cynnwys

- arian parod ym meddiant yr ymadawedig, wedi ei gadw yn y cartref neu

adeiladu a Chynilion Cenedlaethol

- rywle arall, fel coffor adneuo,
- arian mewn cyfrifon cyfredol, adnau, llog uchel, llog penodedig, tymor, bond a marchnad arian,
- cyfrifon gydag archfarchnadoedd neu gwmnïau yswiriant,
- cyfrifon Banc Cynilion Cenedlaethol,
- Bondiau premiwm,
- arian mewn ISA,
- sieciau teithio.

Dylai'r ffigur gynnwys llog a oedd yn ddyledus hyd at y dyddiad hwnnw ond nad oedd wedi ei dalu i'r cyfrif mewn gwirionedd. Cewch y ffigurau hyn gan y banc neu unrhyw gorff arall sy'n dal y cyfrif.

Mae Cynilion Cenedlaethol yn cynnwys

- Tystysgrifau Cynilion Cenedlaethol
- Bondiau Cyfalaf neu Adnau Cynilion Cenedlaethol
- Bondiau Incwm Cynilion Cenedlaethol
- Bondiau Incwm Gwarantedig i Bensiynwyr
- Bondiau Bonws Plant
- Bondiau First Option
- Cytundebau Cynilo Wrth Ennill
- Cynlluniau Blwyddyn
- Bondiau premiwm, gan gynnwys gwobrau sydd heb eu hawlio

Gallwch ddarganfod gwerth holl fuddsoddiadau Cynilion Cenedlaethol drwy anfon ffurflen NSI 904. Mae'r ffurflen ar gael yn Swyddfa'r Post neu gallwch ffonio Llinell Ymholiadau Cynilion Cenedlaethol ar 0845 964 5000 neu drwy anfon e-bost i customerenquiries@nsandi.com

Blwch 13.2

Nwyddau'r tŷ a nwyddau personol

Mae'r term 'nwyddau'r tŷ a nwyddau personol' yn golygu eitemau fel dodrefn, darluniau, peintiadau, tsieni, teledu, offer awdio a fideo, camerâu, gemwaith, ceir, carafannau, cychod, hynafolion, casgliadau stampiau ac yn y blaen. Nid oes rhaid i chi gael prisiau proffesiynol ar gyfer eitemau sy'n werth llai na £500, er y dylech wneud hynny os credwch y gallai unrhyw eitemau fod yn werth mwy na £500. Os byddwch yn amcangyfrif y gwerth, cofiwch ddefnyddio gwerth y farchnad agored ac nid gwerth ar gyfer yswirio neu amnewid.

Gwerth y farchnad agored yw'r pris realistig y disgwylir gwerthu'r eitemau. Mae hwn yn debygol o fod ei werth petai'r eitem yn cael ei werthu mewn ocsiwn, neu drwy'r papur lleol.

Blwch 13.3

Stociau a chyfranddaliadau a restrir ar y Gyfnewidfa Stoc

Yn y blwch hwn dylech gynnwys

- Gwarantau llywodraeth y DU fel Stoc y Trysorlys, Stoc Siecr, Stoc Drosadwy, a Stoc Gyfunol,
- Pob stoc, cyfranddaliad, dyleddeb a gwarantau eraill a restrwyd ar Restr Swyddogol y Gyfnewidfa Stoc,
- Ymddiriedolaethau unedol,
- Ymddiriedolaethau buddsoddi,
- Cwmnïau buddsoddi pen agored,
- cyfranddaliadau mewn ISA.

Dylech hefyd gynnwys unrhyw ddifidendau a oedd yn ddyledus ond heb eu

talw cyn y farwolaeth .

Nid oes rhaid i chi gael prisiau proffesiynol ar gyfer stociau a chyfranddaliadau a restrir. Gallwch brisio cyfranddaliadau a restrir ar Gyfnewidfa Stoc Llundain drwy ddod o hyd i bris y cyfranddaliadau yn nhudalennau ariannol papurau newydd.

Yn gyntaf, gwnewch restr o'r cyfranddaliadau, gan gynnwys enw, gwerth nominal a math o gyfranddaliadau - er enghraifft, cyfranddaliadau cyffredin 10c 'Cwmni Pawb Ccc'. Yna, os ydych yn defnyddio papur newydd, chwiliwch am y cyfranddaliadau a nodwch y pris a roddir ar gyfer pob cyfranddaliad. I ganfod gwerth y cyfranddaliadau, lluoswch nifer y cyfranddaliadau gyda'r pris a roddir.

Felly, os oedd gan yr ymadawedig 1,250 o gyfranddaliadau ac roedd y pris yn 1093½c, yna gwerth y daliad yw £13,668.75.

Weithiau, bydd papurau newydd yn dangos dau bris ar gyfer ymddiriedolaethau unedol. Dylech ddefnyddio'r pris isaf.

Dylech ddefnyddio gwerth y cyfranddaliadau ar y dyddiad y bu farw'r ymadawedig - cofiwch y bydd papur newydd a gyhoeddir ar y diwrnod y bu farw'r ymadawedig yn cynnwys prisiau cyfranddaliadau'r diwrnod blaenorol.

Os bu farw'r ymadawedig ar ddiwrnod pan oedd y Gyfnewidfa stoc ar gau, yna defnyddiwch y pris ar gyfer naill ai'r diwrnod nesaf neu'r diwrnod diwethaf pan oedd y Gyfnewidfa Stoc ar agor, p'un bynnag yw'r isaf. Er enghraifft, os bu farw'r person ar ddydd Sul gallwch ddefnyddio'r pris ar gyfer naill ai'r dydd Llun ar ôl, neu'r dydd Gwener cyn y farwolaeth.

Cadwch eich rhestr gyda phapurau'r ymadawedig a chofnodion eraill.

Blwch 13.4

Stociau a chyfranddaliadau nas rhestrwyd ar y Gyfnewidfa Stoc

Yn y blwch hwn dylech gynnwys

- cyfranddaliadau mewn cwmni teuluol preifat nas rhestrwyd ar y Gyfnewidfa Stoc
- cyfranddaliadau a restrwyd ar y Farchnad Fuddsoddi Amgen (AIM)
- cyfranddaliadau a fasnachir ar OFEX (cyfleuster masnachu heb ei reoleiddio ar gyfer delio mewn cyfranddaliadau nas rhestrwyd).

Byddwch yn gallu prasio cyfranddaliadau ar AIM neu OFEX trwy'r un dull â stociau a chyfranddaliadau a restrwyd.

Dylech roi amcangyfrif o werth y cyfranddaliadau ar y farchnad agored ar gyfer cyfranddaliadau mewn cwmni preifat. Efallai y bydd angen i chi gysylltu ag ysgrifennydd neu gyfrifydd y cwmni i gael hwn. **Ni** ddylech gynnwys gwerth nominal y cyfranddaliadau yn unig – er enghraifft gwerth nominal 1,000 o gyfranddaliadau £1 cyffredin yw £1,000 – oni bai fod hwnnw yn adlewyrchu amcangyfrif o werth gwirioneddol y cyfranddaliadau ar y farchnad agored.

Blwch 13.5

Polisiau yswiriant, gan gynnwys bonysau a pholisïau diogelu morgais.

Yn y blwch hwn dylech gynnwys cyfanswm gwerth

- polisiau yswiriant bywyd sy'n talu swm i'r ystâd, gan gynnwys unrhyw fonysau a delir,
- arian a delir o dan bolisi diogelu morgais (os oedd y polisi yn un ar y cyd, dylech gynnwys y swm sy'n daladwy ym mlwch 14.3) ,

- polisïau yswiriant a ddelir mewn ISAs,
- taliadau a gafwyd o dan gynlluniau buddsoddi sy'n talu 101% o werth yr uned ar farwolaeth,
- taliadau a gafwyd o dan gynlluniau buddsoddi neu ail-fuddsoddi , bondiau neu gytundebau gyda darparwyr gwasanaethau ariannol sy'n talu swm ar farwolaeth,
- polisïau yswiriant ar fywyd person arall ond lle'r oedd yr ymadawedig yn elwa.

Blwch 13.6
Arian sy'n ddyledus i'r ymadawedig

Yn y blwch hwn dylech gynnwys

- arian roedd yr ymadawedig wedi rhoi benthg i rywun arall ac nad oedd wedi ei ad-dalu ar ddyddiad y farwolaeth,
- arian roedd yr ymadawedig wedi rhoi benthg i ymddiriedolwyr a oedd wedi'i gysylltu â pholisi yswiriant bywyd a ddelir mewn ymddiriedolaeth,
- arian roedd yr ymadawedig yn dal nodyn addewidiol neu 'IOU' ar ei gyfer,
- arian roedd yr ymadawedig wedi rhoi benthg i rywun arall ac sydd wedi ei warantu gan forgais ar eiddo,
- arian a oedd yn ddyledus i'r ymadawedig o gyfrif benthg cyfarwyddwr neu gyfrif cyfredol gyda chwmni.

Dylech gynnwys wynebwerth y benthgiad ar ôl didynnu unrhyw ad-daliadau a wnaed. Dylech hefyd gynnwys unrhyw log sy'n ddyledus i'r ystâd hyd at ddyddiad y farwolaeth.

Blwch 13.7
Partneriaeth a buddiannau busnes

Yn y blwch hwn dylech gynnwys gwerth net holl fuddiannau busnes yr ymadawedig. Yn ddelfrydol dylid paratoi cyfrifon ar gyfer y busnes ar adeg y farwolaeth gyda cyfanswm cyfrifon cyfalaf a chyfredol fel man cychwyn. Er hynny, cofiwch mai gwerth asedion cyfalaf mewn cyfrifon fel arfer yw eu 'gwerth ar bapur' ac yn aml iawn bydd hwn yn wahanol i'r gwerth ar y farchnad agored sydd ei angen ar gyfer treth etifeddiant.

Os oedd yr ymadawedig yn Tanysgrifiwr Lloyds, dylech gynnwys ei bortffolio/phortffolio busnes o gyfranddaliadau yma ac nid ym mlwch 11.3.

Pan fo angen, dylech gynyddu (neu leihau) gwerth y buddiannau busnes a ddangosir yn y cyfrifon i adlewyrchu unrhyw addasiadau sy'n angenrheidiol drwy amnewid y 'gwerth ar bapur' gyda gwerth y farchnad agored.

Blwch 13.8
Preswylfa rhydd-ddaliadol/prydlesol

Yn y blwch hwn dylech gynnwys gwerth cartref yr ymadawedig ar y farchnad agored, oni bai ei fod mewn perchnogaeth ar y cyd ac i'w drosglwyddo i'r cydberchennog arall drwy orosedd. Os oedd yr ymadawedig wedi symud i gartref nyrsio neu gartref gofal arall ychydig cyn iddo/iddi farw ac roedd yr eiddo wedi'i adael yn wag, dylech ei gynnwys yn y blwch hwn o hyd. Os oedd yr eiddo wedi ei osod ar ôl i'r ymadawedig symud oddi yno, dylech gynnwys ei werth ym mlwch 13.9. Ysgrifennwch gyfeiriad yr eiddo, gan gynnwys y cod post yn y gofod a ddarparwyd. Os yw cartref yr ymadawedig yn cael ei drosglwyddo i'r cydberchennog arall drwy orosedd, peidiwch â'i gynnwys yma. Dylech gynnwys y gwerth ym mlwch 14.3 yn lle hynny.

Prisio tai, tir ac adeiladau

Gall prisio tai, tir neu adeiladau fod yn gymhleth ac fe'ch cynghorir yn gryf i ddefnyddio prisiwr proffesiynol.

Dylech ofyn i'r prisiwr gymryd i ystyriaeth cyflwr yr adeilad (a allai ostwng ei werth) ac unrhyw nodweddion a allai ei wneud yn ddeniadol i adeiladwr neu

ddatblygwr, fel gerddi mawrion neu fynediad i diroedd eraill sy'n addas ar gyfer eu datblygu (a allai gynyddu ei werth).

Os bydd gennych nifer o brisiadau sy'n rhoi amrywiaeth o werthoedd ar gyfer yr eiddo, yn ôl pob tebyg, dylech gymryd y gwerth sydd rhywle rhwng y gwerth uchaf a'r gwerth isaf sydd gennych.

Os dewch o hyd i wybodaeth sy'n bwrw amheuaeth ar eich amcangyfrif ar ôl cyfrifo eich ffigur a chyn gwneud eich cais am grant, rhaid i chi ei ailystyried. Er enghraifft, gallech fod wedi amcangyfrif bod gwerth yr eiddo yn £250,000. Pan fyddwch yn ceisio ei werthu rydych yn ei roi ar y farchnad am £270,000, ac yn derbyn cynigion am y pris hwnnw neu'n uwch. Mae'n awgrymu y gallai gwerth yr eiddo ar y farchnad agored fod yn debycach i £270,000. Yn yr amgylchiadau hyn, argymhellwn eich bod yn gofyn i'r prisiwr ystyried diwygio ei brisiad, gan gymryd i ystyriaeth pethau fel hyd yr amser er y farwolaeth a symudiadau yn y farchnad dai.

Tudalen 3 **Blwch 13.9**

Eiddo preswyl rhydd-
ddaliadol / prydlesol
arall

Yn y blwch hwn dylech gynnwys gwerth unrhyw eiddo preswyl arall ar y farchnad agored a oedd ym mherchenogaeth yr ymadawedig, a oedd naill ai'n cael ei osod neu a allai gael ei osod ond roedd yn wag pa bu ef/hi farw. Rydym yn esbonio sut y dylech brisio'r eiddo ym mlwch 13.8. Ysgrifennwch y cyfeiriad, gan gynnwys y cod post yn y man a ddarparwyd. Dylech gynnwys unrhyw rent sy'n ddyledus hyd at ddyddiad y farwolaeth ym mlwch 13.11.

Blwch 13.10

Tir ac adeiladau eraill

Yn y blwch hwn dylech gynnwys unrhyw dir neu adeiladau eraill yr oedd yr ymadawedig yn eu perchen. Bydd hwn yn cynnwys

- ffermydd, (os oedd y person a fu farw yn byw ar fferm, dylech gynnwys gwerth y fferm gyfan yma, peidiwch â chynnwys gwerth ar wahân ar gyfer y ffermdy ym mlwch 13.8),
- eiddo busnes, er enghraifft gwesty, siop, ffatri ac yn y blaen,
- coed a choetiroedd,
- tir ac adeiladau eraill, er enghraifft garejys cloi, tir afraid neu ddiffaith, chwareli, meysydd awyr ac ati, a
- hawliau eraill sydd ynghlwm wrth dir megis hawliau pysgota neu saethu.

Rydym yn esbonio sut y dylech brisio'r eiddo ym mlwch 13.8. Argymhellwn eich bod yn gofyn am gyngor proffesiynol os yw'r ystâd yn cynnwys y math hwn o dir oherwydd gall fod yn anodd iawn i'w brisio. Ysgrifennwch gyfeiriad neu leoliad yr eiddo yn y gofod a ddarparwyd.

Blwch 13.11

Unrhyw asedion eraill

Dylech gynnwys yn y blwch hwn unrhyw asedion eraill, nad ydych wedi eu cynnwys ym mlychau 13.1 – 13.10, yr oedd yr ymadawedig yn eu perchen. Er enghraifft

- arian ar ffurf cyflog a oedd yn ddyledus,
- ôl-daliadau pensiwn neu fudd-daliadau heb eu hawlio,
- rhenti sy'n ddyledus am y cyfnod hyd at y farwolaeth,
- incwm o ymddiriedolaeth sy'n ddyledus am y cyfnod hyd at y farwolaeth,
- ad-daliadau o gynlluniau iechyd preifat
- ad-daliadau treth incwm neu dreth enillion cyfalaf,
- arian neu asedion sy'n ddyledus i'r ymadawedig o ystâd rhywun arall a fu farw cyn iddo ef/iddi hi farw,
- ad-daliadau nwy neu drydan, yswiriant neu drwyddedau

Adiwch flychau 13.1 i 13.11 at ei gilydd a nodwch yr ateb ym mlwch A.

14. Asedion eraill sy'n ffurfio rhan o'r ystâd

Dylech gynnwys yr asedion eraill sy'n ffurfio ystâd yr ymadawedig ym mlychau 14.1 – 14.5. Os oes unrhyw ddyledion i'w didynnu o'r asedion hyn, dylech gynnwys y dyledion hyn ym mlychau 15.4 – 15.7. Os yw'r dyledion yn fwy na gwerth yr asedion cyfatebol, dywedwch wrthym beth oedd cyfanswm yr asedion a'r dyledion ym mlwch 16 ac ysgrifennwch 'dim' yn y blychau perthnasol.

Blwch 14.1

Rhoddion a throsglwyddiadau oes eraill

Os ateboch 'Do' i gwestiwn 2 dylech ysgrifennu cyfanswm gwerth y rhoddion neu drosglwyddiadau oes eraill a wnaed gan yr ymadawedig llai unrhyw

- eithriad rhoddion bychain
- eithriad blynyddol
- rhyddhad am roddion a roddwyd o incwm, a
- rhyddhad am roddion a wnaed ar adeg priodas neu ffurfio partneriaeth sifil

a diddynnwyd gennych yn y blwch hwn.

Dylid rhestru unrhyw eithriadau eraill (er enghraifft, eithriad priod neu bartner sifil neu eithriad elusen) rydych yn eu didynnu o'r rhoddion ym mlwch 17.1.

Mae fwy o wybodaeth ynglŷn ag eithriadau i'w weld ar ein gwefan yn www.hmrc.gov.uk

Dylech ddweud wrthym

- dyddiad y rhodd,
 - enw'r person a gafodd y rhodd,
 - pa beth a roddwyd am ddim,
 - ei werth, a
- disgrifiwch sut rydych wedi didynnu'r rhyddhad.

Defnyddiwch flwch 16 os bydd angen mwy o le arnoch i roi manylion y rhoddion.

Blwch 14.2

Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth

Os atebwch 'Oedd' i gwestiwn 4, dylech ysgrifennu gwerth gros asedion yr ymddiriedolaeth yn y blwch hwn. Os cewch un ffigur yn unig gan yr ymddiriedolwyr, hynny yw, ar ôl didynnu unrhyw ddyledion, dylech gynnwys hwnnw yma yn lle hynny. Dylech ysgrifennu enw'r person a sefydlodd yr ymddiriedolaeth a'r dyddiad y'i sefydlwyd yn y gofod a ddarparwyd ym mlwch 14.2.

Blwch 14.3

Cyfran asedion ar y cyd i'w trosglwyddo drwy oroesedd.

Os oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw asedion ar y cyd, dylech ddisgrifio pob ased ar y cyd ac ysgrifennu gwerth yr ased cyfan yn y gofod a ddarparwyd ym mlwch 14.3. Os mai tŷ yw'r ased ar y cyd, rhowch y cyfeiriad. Defnyddiwch flwch 16 os bydd angen mwy o le arnoch i roi manylion asedion ar y cyd. Dylech ysgrifennu cyfanswm gwerth cyfran yr ymadawedig o'r asedion ar y cyd hyn ym mlwch 14.3.

Os cadwyd yr asedion a ddaliwyd ar y cyd fel tenantiaid cydradd, dylid eu hychwanegu at yr asedion eraill ym mlychau 13.1 i 13.11 yn lle - ac os oedd unrhyw ddyledion yn ddyledus ar asedion a ddaliwyd fel tenantiaid cydradd, dylech gynnwys y dyledion hyn ym mlychau 15.2 neu 15.3.

Os oedd yr asedion ar y cyd ym mherchnogaeth yr ymadawedig a'i

briod/phriod neu bartner sifil, rhaid i chi eu cynnwys yn y blwch priodol o hyd. Dylech ddidynnu unrhyw ryddhad ar gyfer priod neu bartner sifil ym mlwch 17.1.

Blwch 14.4

Asedion a enwebwyd

Gellir 'enwebu' rhai cyfrifon banc a buddsoddiadau Cynilion Cenedlaethol. Golyga hyn bod y perchennog wedi rhoi cyfarwyddyd i'r ased gael ei drosglwyddo i berson neilltuol pan fydd y perchennog yn marw. (Ond nid yw hyn yn cynnwys cymynnau yn yr ewyllys). Bydd angen i chi gynnwys unrhyw asedion a enwebwyd fel rhan o'r ystâd. Ond nid yw hyn yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn a enwebwyd a drafodwyd ynghynt yn y llyfryn hwn.

Os canfyddwch fod yr ymadawedig wedi enwebu unrhyw asedion, dylech ddisgrifio'r ased a rhoi ei werth ym mlwch 16. Ysgrifennwch gyfanswm gwerth yr asedion a enwebwyd ym mlwch 14.4.

Blwch 14.5

Asedion y tu allan i'r Deyrnas Unedig

Dylech gynnwys yn y blwch hwn gwerth yr asedion y tu allan i'r Deyrnas Unedig, yn ogystal â chyfran yr ymadawedig o unrhyw asedion tramor yr oedd yn eu perchen ar y cyd gyda rhywun arall. Bydd angen i chi drosi'r gwerth mewn arian tramor i £ sterling. Ceir cyfraddau trosi'r arian cyfred mwyaf cyffredin yn y papurau dyddiol.

Cofiwch nad yw Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw yn rhan o'r Deyrnas Unedig at ddibenion treth etifeddiant.

Adiwch flychau 14.1 - 14.5 at ei gilydd ac ysgrifennwch yr ateb ym mlwch B. Adiwch flychau A a B ac ysgrifennwch yr ateb ym mlwch C.

Os yw'r ffigur ym mlwch C yn fwy na'r terfyn eithrio ystâd ac nid oes un o'r asedion i'w trosglwyddo i briod neu bartner sifil yr ymadawedig neu i elusen cymwys, peidiwch â chwblhau'r ffurflen IHT205(2006) ymhellach – bydd angen ichi gwblhau ffurflen IHT400.

15. Dyledion yr ystâd

Blwch 15.1

Treuliau'r angladd

Gallwch gynnwys didyniad ar gyfer treuliau'r angladd a didyniad rhesymol am dreuliau galaru'r teulu agos. Gallwch hefyd ddidynnu cost carreg fedd neu blac i nodi bedd yr ymadawedig. Nodwch gyfanswm y costau hyn yn y blwch hwn.

Blwch 15.2

Morgeisi yn enw'r ymadawedig yn unig

Yn y blwch hwn dylech gynnwys unrhyw arian a warrantwyd drwy forgais ar eiddo rydych wedi ei gynnwys ym mlwch 13; os mai dim ond cyfran o'r eiddo roedd yr ymadawedig yn ei berchen, dylech gynnwys y gyfran briodol o'r morgais yn unig. Os oedd polisi diogelu morgais gan yr ymadawedig dylech gynnwys y morgais yn y blwch hwn a'r arian a dalwyd gan y polisi ym mlwch 13.5.

Blwch 15.3

Dyledion eraill sy'n ddyledus yn y Deyrnas Unedig

Yn y blwch hwn dylech gynnwys dim ond y dyledion roedd yn ddyledus gan yr ymadawedig pan fu ef/hi farw. Er enghraifft, biliau'r cartref, sieciau heb eu talu gan y banc am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd cyn y farwolaeth a dyledion cardiau credyd. **Peidiwch â** chynnwys ffioedd am wasanaethau proffesiynol a gyflawnwyd **ar ôl** y farwolaeth, er enghraifft ffioedd cyfreithwyr neu asiant gwerthu tai a ffioedd prisio.

Os oedd y person a fu farw wedi ysgrifennu siec er mwyn rhoi rhodd cyn iddo/iddi farw, ac os nad oedd y siec wedi ei thalu gan y banc erbyn y farwolaeth, **ni** ddylech drin y siec fel didyniad. Rhaid i chi gynnwys gwerth cyfrif banc yr ymadawedig heb ddidynnu'r siec. Ni ddylech ddangos y rhodd a fwriadwyd fel rhodd wrth ateb cwestiwn 2.

Adiwch flychau 15.1 - 15.3 at ei gilydd a nodwch yr ateb ym mlwch D.

Blwch 15.4 Dyledion sy'n daladwy allan o asedion ymddiriedolaeth	Dylech gynnwys unrhyw ddyledion sy'n daladwy allan o asedion ymddiriedolaeth yn y blwch hwn. Os rhoddir un ffigur yn unig i chi gan yr ymddiriedolwyr ar gyfer asedion yr ymddiriedolaeth, hynny yw ar ôl didynnu unrhyw ddyledion, dylech gynnwys y ffigur hwnnw ym mlwch 14.2 a gadael y blwch hwn yn wag.
Blwch 15.5 Cyfran y morgais ar eiddo ar y cyd	Dylech gynnwys cyfran o unrhyw arian yr ymadawedig a sicrhawyd gan forgais ar eiddo ar y cyd yn y blwch hwn. Os oedd polisi diogelu morgais ar y cyd yn bodoli, dylech gynnwys cyfran y morgais yn y blwch hwn a chyfran yr arian a dalwyd gan y polisi ym mlwch 14.3.
Blwch 15.6 Cyfran dyledion eraill sy'n daladwy allan o asedion ar y cyd.	Yn y blwch hwn dylech gynnwys cyfran o unrhyw ddyledion eraill a oedd mewn gwirionedd yn ddyledus gan yr ymadawedig pan fu ef/hi farw, sy'n daladwy allan o asedion a ddelir ar y cyd.
Blwch 15.7 Dyledion sy'n ddyledus i bersonau y tu allan i'r Deyrnas Unedig.	Yn y blwch hwn dylech gynnwys unrhyw ddyledion a oedd mewn gwirionedd yn ddyledus gan yr ymadawedig pan fu ef/hi farw, i rywun a oedd yn byw dramor.

Adiwch flychau 15.4 –15.7 at ei gilydd a nodwch yr ateb ym mlwch E.

Adiwch flychau D ac E at ei gilydd a nodwch yr ateb ym mlwch F.

Didynnwch y ffigur ym mlwch F o'r ffigur ym mlwch C a nodwch yr ateb ym mlwch G.

**Tudalen 4
Blwch 16
Gwybodaeth
ychwanegol**

Defnyddiwch y lle hwn i roi unrhyw wybodaeth y gofynnwn amdani, neu os bydd angen mwy o le arnoch am ryw reswm. Os oes rhywbeth yr hoffech i ni ei ystyried, rhowch fanylion yma. Gallwch barhau ar ddarn o bapur ar wahân os nad oes digon o le gyda chi.

Blwch 17 Eithriadau

Os yw'r ffigur ym mlwch C yn llai na'r terfyn eithrio ystâd ac nid oes un o'r asedion i'w trosglwyddo i briod neu bartner sifil yr ymadawedig neu elusen gymwys, nodwch '0' ym Mlwch H a chopiwch y ffigur ym Mlwch G i Flwch J. Ewch i dudalen 29 a pharhewch gyda'r paragraff 'Gwerth cymhwyso net'.

Os trosglwyddir unrhyw asedion i briod neu bartner sifil yr ymadawedig, neu i elusen cymwys neu unrhyw gorff cymhwysol arall, mae'n debygol y bydd yr asedion hyn wedi'u heithrio rhag treth etifeddiant. A bod y cymynnau yn bodloni'r amodau a ddisgrifir ynghynt yn y canllaw hwn, gallwch ddidynnu swm y cymyn o werth net yr ystâd a welir ym mlwch G.

Fodd bynnag, os yw'r ffigur ym mlwch C yn llai na'r terfyn eithrio ystâd, ni all fod treth i'w thalu, felly nid oes angen i chi drafferthu i ddidynnu unrhyw ryddhad a allai fod yn ddyledus.

Blwch 17.1

Rhyddhad

Dylech ddisgrifio maint y rhyddhad, neu restru'r asedion penodol sydd â hawl i gael eu heithrio yn y blwch hwn. Nodwch gyfanswm gwerth yr holl ryddhad ym mlwch H.

Er enghraifft

1. Os yw ewyllys yr ymadawedig yn dweud bod yr ystâd gyfan i'w

throsglwyddo i'r priod neu'r partner sifil, dywedwch hynny, a nodwch y ffigur sydd o Flwch G ym mlwch H.

2. Os gwnaeth yr ymadawedig roddion oes i'w briod/phriod neu bartner sifil neu i elusen gymwys, rhestrwch y rhoddion ac unrhyw ryddhad i'w didynnu yn y blwch hwn. Dylech ddangos hefyd unrhyw ryddhad i'w didynnu o'r ystâd sy'n cael eu throsglwyddo ar adeg y farwolaeth. Ychwanegwch yr holl ryddhad at ei gilydd a nodwch y cyfanswm ym mlwch H.
3. Os oes cymynnau o £30,000 i'r plant, gyda $\frac{3}{4}$ o weddill yr ystâd yn cael ei throsglwyddo i'r priod neu'r partner sifil ac $\frac{1}{4}$ i'r plant, esboniwch fod yr ystâd i'w throsglwyddo yn y ffordd hon, cyfrifwch faint fydd y priod neu'r partner sifil yn ei gael a nodwch y ffigur hwnnw ym mlwch H.
4. Os yw'r priod neu'r partner sifil i gael nwyddau'r tŷ a'r nwyddau personol a chartref yr ymadawedig, rhestrwch y ddwy eitem hyn yn y blwch hwn a nodwch gyfanswm eu gwerth ym mlwch H.
5. Os oes cymynnau i elusennau cymwys, nodwch enwau'r cyrff sy'n elwa yn y blwch hwn. Nodwch gyfanswm yr holl gymynnau i'w throsglwyddo i'r elusennau cymwys ym mlwch H. Os nad oes digon o le yn y blwch oherwydd bod nifer o gymynnau i elusennau cymwys gwahanol, yna rhestrwch y cyrff hynny sy'n derbyn dros £25,000 yn unig. Ar gyfer y gweddill, nodwch faint o elusennau cymwys eraill sy'n elwa a chynhwyswch un ffigur ar gyfer cyfanswm y cymynnau llai.
6. Os oes cymysgedd o asedion i'w throsglwyddo i briod neu bartner sifil yr ymadawedig ac i elusennau cymwys, rhowch gymaint o fanylion â phosibl yn y blwch hwn a nodwch gyfanswm y rhyddhad ym mlwch H. Defnyddiwch flwch 16 os bydd angen rhagor o le arnoch.

Didynnwch y ffigur ym mlwch H o'r ffigur ym mlwch G a nodwch yr ateb ym mlwch J. Dyma werth cymhwyso net yr ystâd.

Blwch 17.2

Swyddfa dreth neu gyfeirnod

Os ydych wedi didynnu unrhyw ryddhad ar gyfer priod neu bartner sifil, neu ryddhad elusen yn erbyn gwerth yr ystâd, dylech roi enw swyddfa dreth a chyfeirnod treth yr ymadawedig yn y blwch hwn. Fel arall gadewch y blwch hwn yn wag. Os oedd yr ymadawedig yn drethdalwr o dan Hunanasesiad, y cyfeirnod treth yw'r Cyfeirnod Trethdalwr Unigryw sef yr UTR deg digid o hyd, a ddyfynnir ar ohebiaeth CThEM.

Gwerth cymhwyso net

Ar yr amod nad yw'r ffigur ym mlwch J yn uwch na'r terfyn eithrio ystâd, gallwch wneud cais am grant cynrychiolaeth heb gwblhau ffurflen IHT400.

Os yw'r ffigur ym mlwch J yn uwch na'r terfyn eithrio ystâd, peidiwch â chwblhau ffurflen IHT205(2006) ymhellach – bydd angen ichi gwblhau ffurflen IHT400.

Ac yn olaf.....

Trowch yn ôl i dudalen gyntaf y ffurflen. Os yw'r ffigur ym mlwch C yn llai na'r terfyn eithrio ystâd, dylech dicio'r blwch cyntaf yn y gornel ar y dde ar frig y dudalen gyntaf. Os yw'r ffigur ym mlwch C yn fwy na'r terfyn eithrio ystâd, ond yn llai na £1,000,000 ac rydych wedi didynnu rhyddhad priod neu bartner sifil neu ryddhad elusen, sy'n golygu bod y ffigur ym mlwch J yn is na'r terfyn eithrio ystâd, yna dylech dicio'r ail flwch.

Llofnodi'r ffurflen

Dylai bob person a fydd yn gwneud cais am y grant ddarllen y datganiadau

uwchben y blychau llofnodi. Drwy lofnodi'r ffurflen mae pob person yn dweud eu bod wedi darllen y datganiadau ac y byddant yn cydymffurfio â'u telerau. Dylai bob person sy'n gwneud cais am grant ysgrifennu ei enw/henw a'u cyfeiriad yn un o'r blychau a llofnodi a dyddio'r ffurflen.

Crynodeb

Copiwch y ffigurau o flychau A a D i'r blychau priodol yn y crynodeb. Tynnwch flwch D o flwch A a rhowch yr ateb ym mlwch K.

Beth i'w wneud pan fyddwch wedi gorffen y ffurflen

Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi atebion i'r cwestiynau a ofynnir yn fynych i'n llinell gymorth.

A oes angen copi o'r ffurflen arna' i?

Oes, rydym yn eich argymhell i gadw copi o'r ffurflen wedi'i llofnodi ar gyfer eich cofnodion eich hun ac oherwydd y bydd ei hangen arnoch petai gwerth yr ystâd yn newid ac yn golygu bod treth yn dod yn daladwy ar ôl caniatáu'r grant.

Beth am yr holl bapurau a'r cofnodion rydw i wedi eu defnyddio i gwblhau'r ffurflen?

Does dim angen i chi anfon atom gopiâu o unrhyw bapurau eraill rydych wedi'u defnyddio i gwblhau ffurflen IHT205(2006) - dim ond y ffurflen ei hun ac unrhyw dudalen(nau) parhad ar gyfer blwch 16. Ond dylech gadw'r papurau a'r cofnodion yn ddiogel rhag ofn y gofynnwn amdanynt.

Pryd bydda' i'n clywed gennych os ydych am weld y papurau a'r cofnodion?

Cyhyd â'ch bod wedi defnyddio ffurflen IHT205(2006) yn gywir, mae'n annhebyg y byddwch yn clywed gennym. Mae gennym 35 diwrnod calendr ar ôl caniatáu'r grant i ysgrifennu atoch ynglŷn â'r wybodaeth a roesoch ar y ffurflen. Os na fyddwn yn ysgrifennu atoch yn y cyfnod hwnnw ni fydd angen i ni weld y papurau a'r cofnodion ac ni fydd yn rhaid i chi dalu treth etifeddiant.

Fodd bynnag, ni fydd hyn yn berthnasol os byddwch heb ddweud wrthym am unrhyw beth ynglŷn â'r ystâd ar y ffurflen hon.

Mae'r paragraffau yn yr adran dywyll ar gyfer pobl sy'n gwneud cais am grant heb gymorth cyfreithiwr neu asiant arall.

Beth sy'n rhaid i mi ei wneud nawr?

Yn dibynnu ar p'un a ydych yn gwneud cais am grant yng Nghymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon, mae prosesau ychydig yn wahanol i'w dilyn.

Cymru a Lloegr

Darllenwch lyfryn PA2 a dilynwch y cyfarwyddiadau i gwblhau ffurflen PA1. Pan fyddwch wedi casglu ynghyd yr holl bapurau sydd eu hangen i wneud cais am brofiant, anfonwch ffurflen IHT205(2006) a'r papurau hynny at y gofrestrfa brofiant berthnasol yn unol â'r esboniad yn llyfryn PA2.

Beth sy'n digwydd wedyn?

Mae llyfryn PA2 yn sôn wrthych yn fanwl am yr hyn fydd yn digwydd. Yn gryno, bydd y gofrestrfa brofiant yn gofyn i chi ddod am gyfweliad. Cyhyd â bod popeth yn foddhaol, bydd y gofrestrfa brofiant yn anfon y grant atoch ac yn anfon y ffurflen IHT205(2006) atom ni.

Gogledd Iwerddon

Darllenwch y llyfryn "Dealing with a deceased person's estate". Pan fyddwch wedi casglu ynghyd yr holl bapurau sydd eu hangen arnoch i wneud cais am brofiant, ffoniwch swyddfa Belfast neu Londonderry i drefnu apwyntiad am gyfweliad. Bydd angen i chi fynd â'ch holl bapurau gyda chi i wneud cais am brofiant ynghyd â'r ffurflen IHT205(2006). Ar ôl eich cyfweliad bydd y swyddfa brofiant yn anfon y grant atoch chi ac yn anfon y ffurflen IHT205(2006) atom ni.

Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gael y grant?

Gallwch ddechrau delio â'r ystâd drwy gasglu'r asedion ynghyd â thalu dyledion a chymynnau.

Beth i'w wneud os bydd gwerth yr ystâd yn newid

Beth rydw i'n ei wneud os bydd gwerth yr ystâd yn newid?

Os byddwch yn dod o hyd i asedion eraill neu os canfyddwch fod gwerth ased wedi newid ar ôl i chi gael y grant – er enghraifft, gwerthwyd y tŷ neu rai nwyddau personol am ffigur gwahanol, dylech newid eich copi gweithredol o'r ffurflen. Os, ar ôl gwneud y newidiadau hyn mae'r ffigur ym mlwch J yn fwy na throthwy Treth Etifeddiant, bydd angen i chi ddweud wrthym am y newidiadau a thalu'r dreth.

Sut rydw i'n dweud wrthy ch am y newidiadau?

Dylech gwblhau Cyfrif Cywirol, ffurflen C4 i ddweud wrthym am unrhyw newidiadau. Gellir cael y ffurflen hon o'r rhynggrwyd neu ein llinell gymorth. Copi'wch y ffigur o flwch J ar ffurflen IHT205(2006) i dudalen 4 y Cyfrif Cywirol a chwblhewch weddill y dudalen honno.

Rhaid i chi anfon ffurflen C4 atom o fewn 6 mis o ddarganfod y newid i'r ystâd. Os dychwelwch y ffurflen atom yn hwyr, gallech fod yn agored i gosbau ariannol.

Gallwch gyfrifo'r dreth sy'n daladwy drwy ddiynnu trothwy'r Dreth Etifeddiant o werth diwygiedig yr ystâd a chymryd 40% o'r swm hwnnw. Efallai y bydd yn rhaid i chi ychwanegu llog at y dreth sy'n ddyledus. Mae'r llog yn rhedeg o 6 mis o ddiwedd y mis y digwyddodd y farwolaeth. Gall ein llinell gymorth ddweud wrthy ch beth yw'r gyfradd llog.

Os cyfrifwch fod treth i'w thalu, anfonwch y ffurflen C4, ynghyd â chopi o'r IHT205(2006) a'ch sic am y dreth ac unrhyw log sy'n ddyledus i'n swyddfa yn Nottingham.

Os nad ydych am gyfrifo'r dreth eich hun, yna anfonwch ffurflen C4 a chopi o'r IHT205(2006) atom. Byddwn wedyn yn anfon cyfrifiad o'r dreth ac unrhyw log sy'n ddyledus atoch. Ond byddwn yn gallu delio â'ch ystâd ynghynt os gallwch anfon y taliad atom ni.

Os cyfrifwch nad oes treth i'w thalu o hyd, ond bod y newidiadau yn golygu nad yw'r ystâd bellach yn gymwys fel ystâd eithriedig, anfonwch ffurflen C4, ynghyd â chopi o'r IHT205(2006) i naill ai swyddfa Nottingham neu Belfast. Mae hyn yn dibynnu p'un a wnaethoch gais am grant yng Nghymru a Lloegr neu yng Ngogledd Iwerddon.

Beth ddylwn ei wneud os bydd y rhyddhad yn newid?

Gall y rhyddhad newid os bydd y rheiny sy'n etifeddu'r ystâd yn newid ar ôl dyddiad y farwolaeth. Gall buddiolwyr ystâd newid y rheiny sy'n etifeddu ystâd drwy gyflawni gweithred amrywio. Os bydd y bobl sy'n etifeddu'r ystâd yn newid, ac o ganlyniad nid yw'r ystâd bellach yn gymwys fel ystâd eithriedig, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym am y newidiadau ar Gyfrif Cywirol, ffurflen C4.

Er enghraifft, petai'r holl asedion yn cael ei gadael i'r priod sy'n goroesi, dylai blwch J ar ffurflen IHT205(2006) ddangos '0'. Ond os bydd y priod yn ailgyfeirio £100,000 i'w blant/phlant, dylech leihau'r rhyddhad a welir ym mlwch H gan y swm hwnnw ac ail gyfrifo'r ateb ym mlwch J. Ond gan nad yw blwch J yn uwch na'r terfyn eithrio ystâd o hyd nid oes angen dweud wrthym am y newid.

Ond petai'r priod, yn yr un enghraifft, yn ailgyfeirio £400,000 i'r plant, byddai'r ffigur newydd ym mlwch J yn uwch na'r terfyn eithrio ystâd. Felly,

byddai'n rhaid i chi gwblhau ffurflen C4. Dylech gopïo'r ffigur gwreiddiol o flwch J ar ffurflen IHT205(2006) i dudalen 4 ar ffurflen C4 ac yna dangos y lleihad yn y rhyddhad ar yr un dudalen.

Ond beth os cwmpesir y newidiadau gan eithriadau neu ryddhad eraill?

Gall hyn ddigwydd er enghraifft, pan adewir yr holl asedion i'r priod, ond maent yn cynnwys fferm y mae'r priod yn ei ailgyfeirio (trwy ddogfen amrywio) i'r plant. Dylech ostwng gwerth y rhyddhad priod neu bartner sifil gan werth y fferm ac ail-gyfrifo'r ateb ym mlwch J. Os na fydd blwch J yn uwch na'r terfyn eithrio ystâd o hyd, nid oes rhaid i chi ddweud wrthym am y newidiadau, ond os yw'n uwch na'r terfyn eithrio, mae'n rhaid i chi gwblhau ffurflen C4.

Dylech gopïo'r ffigur gwreiddiol o flwch J ar ffurflen IHT205(2006) i dudalen 4 ar ffurflen C4 a dangos y lleihad yn yr eithriad priod neu bartner sifil ar y dudalen honno. Os credwch fod y fferm yn gymwys ar gyfer rhyddhad amaethyddol, dylech hefyd gynnwys y rhyddhad ar dudalen 4.

Gallai hyn olygu nad oes unrhyw dreth i'w thalu o hyd. Ond gan nad yw'r ystâd yn gymwys fel ystâd eithriadig (oherwydd mai dim ond rhyddhad priod neu bartner sifil a rhyddhad elusen y gallwch eu hystyried wrth benderfynu p'un a all ystâd gymhwyso fel ystâd eithriadig), **rhaid i chi ddweud wrthym am y newidiadau o dan yr amgylchiadau hyn o hyd.** Dylech anfon copi o ewylllys yr ymadawedig a'r ddogfen amrywio gyda'r ffurflenni.

Cosbau

Mae'r Deyrnas Unedig wedi cyflwyno system newydd o gosbau ar gyfer anghywirdebau mewn ffurflenni treth a dogfennau eraill a roddir i ni. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a roddir ar ffurflen IHT205(2006) ar gyfer marwolaethau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009. O dan y system newydd os cymerwch ofal rhesymol wrth lenwi ffurflen IHT205(2006), ni fyddwn yn codi cosb arnoch, hyd yn oed os gwnewch gamgymeriad.

Pam fod angen cosbau arnom?

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cymryd gofal i gwblhau eu ffurflenni'n gywir. Rydym am annog hynny a helpu pobl i gael pethau'n iawn. Rydym yn defnyddio cosbau i atal pobl nad ydynt yn ofalus rhag manteiso'n annheg.

Pryd y codir cosbau?

Dylech ddefnyddio ffurflen IHT205(2006) dim ond os yw'r ystâd yn 'ystâd eithriadig' ac nid oes treth etifeddiant i'w thalu ar yr ystâd. Gallwn godi cosbau ariannol os fyddwch yn cynnwys anghywirdebau yn y ffurflen IHT205(2006) sydd, pan gaiff ei chywiro'n hwyrach, yn golygu bod treth etifeddiant i'w thalu wedi'r cyfan.

Sut i osgoi cosb

Os cymerwch ofal rhesymol i gael pethau'n iawn, ni fyddwn yn codi cosb os gwnewch gamgymeriad. Byddwn fel arfer yn derbyn eich bod wedi cymryd gofal rhesymol os ydych wedi dilyn yr arweiniad yn y llyfryn hwn ac:

- wedi chwilio drwy bapurau a dogfennau'r ymadawedig yn drylwyr i ddod o hyd i'r asedion, buddsoddiadau a buddiannau ariannol eraill yr oedd gan yr ymadawedig pan fu ef/hi farw
- wedi cysylltu ag eraill, er enghraifft teulu, ffrindiau, cyfrifwyr ac yn y blaen y gallai fod ganddynt wybodaeth ynglŷn â materion yr ymadawedig
- wedi cynnwys manylion holl asedion, rhwymedigaethau, trafodion a buddiannau ariannol eraill yr ymadawedig sy'n agored i dreth etifeddiant ar ffurflen IHT205(2006)
- wedi cymryd camau rhesymol i gyfrifo gwerth "marchnad agored" yr asedion hynny

Os na fyddwch yn cymryd gofal rhesymol gallwn gosbi unrhyw anghywirdebau. Bydd y cosbau'n uwch os ydynt yn rhai bwriadol.

Beth ddylwn ei wneud os canfyddaf anghywirdeb?

Os, ar ôl gwneud cais am grant profiant, rydych yn canfod anghywirdeb sydd, pan gaiff ei gywiro, yn golygu bod treth etifeddiant yn daladwy gan yr ystâd, dylech ddweud wrthym amdano cyn gynted a phosibl. Mae esboniad o'r hyn ddylech ei wneud yn adran "Beth i'w wneud os bydd gwerth yr ystâd yn newid" yn y llyfryn hwn.

Ond does dim angen dweud wrthym am anghywirdebau nad ydynt yn peri bod treth i'w thalu. Yn lle hynny, nodwch hwy ar eich cofnodion rhag ofn y daw rhywbeth arall i'r golwg yn hwyrach sy'n golygu bod treth yn daladwy pan gaiff yr holl anghywirdebau eu cywiro.

Sut i leihau'r gosb

Ni fydd dweud wrthym am anghywirdebau'n golygu y byddwch yn agored i gosbau. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, rydym yn aml yn ystyried y ffaith eich bod wedi ein hysbysu, yn rhan o gymryd gofal rhesymol i gael eich treth yn iawn. Gallwn ostwng eich cosb yn sylweddol os byddwch:

- yn dweud wrthym am unrhyw anghywirdebau cyn i ni eich holi yn eu cylch
- yn ein helpu i gyfrifo'r swm treth cywir
- yn ateb unrhyw gwestiynau y gofynnwn i chi, yn gyflawn, yn brydlon ac yn onest.


Beth os bydd yr anghywirdeb yn codi o ganlyniad i wybodaeth a ddarparwyd gan rywun arall?

Os bydd person arall wedi rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â materion yr ymadawedig; er enghraifft, mae aelod o'r teulu wedi dweud wrthyhych am rodd a gafodd ef/hi, a rhoddodd y person hwnnw wybodaeth anwir neu gelu gwybodaeth yn fwriadol, gallwn godi cosb arno ef/hi.

Disgwyliwn y byddwch wedi gwirio'r wybodaeth honno yn erbyn gwybodaeth arall y daethoch ar ei draws ynglŷn â'r ymadawedig ac ymholi ynglŷn ag unrhyw anghysondebau. Os gallwch ddangos eich bod wedi gwneud hynny, byddwn fel arfer yn derbyn eich bod wedi cymryd gofal rhesymol ac ni fyddwn yn codi cosb arnoch o ganlyniad i'r anghywirdeb.

Beth yw'r cosbau?

Mae'r gosb yn ganran o swm y dreth sydd heb ei thalu. Mae cyfradd y gosb yn dibynnu ar pam y gwnaethoch yr anghywirdeb. Po lleiaf difrifol y rheswm, po lleiaf fydd y gosb



Sut fydda i'n gwybod os bydd yn rhaid i mi dalu cosb?

Byddwn yn trafod yr ystâd gyda chi er mwyn cyfrifo'r swm cywir o dreth sy'n daladwy ac unrhyw gosb a allai fod yn ddyledus, cyn ein bod yn anfon rhybudd o gosb. Drwy hynny gallwch ddeall beth sydd wedi digwydd a pham rydym yn gwneud hyn.

Os nad ydych yn cytuno, gallwch apelio yn erbyn y gosb i driwlynlys annibynnol, fel arfer Tribiwnlys haen gyntaf y Siambr Dreth. Gallwch hefyd ddewis adolygiad mewnlol gan swyddog annibynnol CThEM, sy'n ffordd gyflym a rhad o ddatrys anghydfodau. Gweler ein taflen wybodaeth HMRC1 sydd ar gael yn www.hmrc.gov.uk/cymraeg/HMRC1.pdf

Ble gallaf gael mwy o

Mae fwy o wybodaeth ynglŷn â chosbau am wallau yn:

gymorth?

www.hmrc.gov.uk/about/new-penalties/index.htm

Mae fwy o wybodaeth ynglŷn â threth etifeddiant a threth ar ystadau pobl ymadawedig yn: www.hmrc.gov.uk/inheritancetax/

Cyfrinachedd

Mae gennych hawl i'r un graddau uchel o gyfrinachedd â threthdalwyr eraill. Mae gennym ddyletswydd cyfreithiol i gadw eich materion yn hollol gyfrinachol a ni allwn roi gwybodaeth i eraill ynghylch ystâd, ymddiriedolaeth, neu drosglwyddiad hyd yn oed os bydd ganddynt fuddiant ynddynt, oni bai fod y gyfraith yn ein caniatáu i wneud hynny. Golyga hyn y gallwn drafod materion trethdalwr gyda'r person hwnnw yn unig, neu gyda rhywun arall y mae'r trethdalwr wedi'i benodi i weithredu ar eu rhan. Yn achos rhywun sydd wedi marw, golyga hyn y gallwn drafod ystâd gyda'r bobl (neu'r person) sydd wedi llofnodi a chyflwyno ffurflen IHT205(2006); hynny yw yr ysgutorion neu'r gweinyddwyr, neu berson arall sydd wedi ei benodi i weithredu ar eu rhan; fel arfer cyfreithiwr neu gyfrifydd.

Deddf Diogelu Data

Mae CThEM yn Rheolydd Data o dan y Ddeddf Diogelu Data. Rydym yn cadw gwybodaeth at ddibenion trethi, cyfraniadau nawdd cymdeithasol, credydau treth ac at ddibenion statudol penodol eraill a aseindir gan y Senedd. Gellir defnyddio'r wybodaeth sydd yn ein meddiant at unrhyw un o swyddogaethau Cyllid a Thollau EM.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu gallwn ni roi gwybodaeth iddyn nhw. Os gwnawn, gwneir hynny yn unol â'r hyn a ganiateir gan y gyfraith, er mwyn

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Gallwn wirio gwybodaeth a dderbyniwn amdanoch chi gyda'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddarperir gennych chi yn ogystal â chan eraill megis adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth dramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch chi i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EM oni bai fod y gyfraith yn ein caniatáu i wneud hynny.

I ble ddylwn anfon y ffurflen?

Gweler tudalen 27 y llyfryn hwn am wybodaeth ynglŷn â'r hyn i'w wneud nesaf.

Pan fyddwch wedi gorffen cwblhau ffurflen IHT205(2006) ac unrhyw ffurflenni eraill y gofynnir amdanynt gan y Gwasanaeth Profiant, dylech anfon yr holl ffurflenni ar gyfer:

- ceisiadau yng Nghymru a Lloegr, i'r Gofrestrfa Profiant o'ch dewis (gweler llyfrynnau PA2 a PA4)
- ceisiadau yng Ngogledd Iwerddon, i naill ai Swyddfa Brofiant Belfast neu'r Gofrestrfa Profiant y Dosbarth yn Londonderry (gweler y llyfryn "Dealing with a deceased person's estate").

Cadwch gopi o'r ffurflen ar gyfer eich cofnodion eich hun

Fe'ch argymhellir yn gryf i gadw copi o'r ffurflen IHT205(2006) wedi'i chwblhau ar gyfer eich cofnodion. Ni fydd Treth Etifeddiant Cyllid a Thollau EM nac ychwaith y Gwasanaeth Profiant yn gallu darparu copi i chi unwaith y byddwch wedi anfon y ffurflen atom.

Does gan y llyfryn hwn ddim grym cyfreithiol. Mae'n adlewyrchu'r gyfraith dreth ar adeg ei ysgrifennu. Efallai y bydd angen i ni ystyried amgylchiadau arbennig ar gyfer ystâd benodol.

Cyhoeddwyd gan
CThEM, Treth Etifeddiant
HMRC, Inheritance Tax
Ferrers House, PO Box 38, Castle Meadow Road
Nottingham NG2 1BB
Mehfin 2010